


Lleisiau Coll

**Adolygiad o'r eiriolaeth annibynnol proffesiynol
ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai
sy'n gadael gofal a phlant mewn angen**



Lleisiau Coll

Adolygiad o'r eiriolaeth annibynnol proffesiynol
ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai
sy'n gadael gofal a phlant mewn angen



Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn
fformatau eraill drwy ffonio 01792 765600
neu ebostio post@complantcymru.org.uk

Rhagair	04
Cyflwyniad	08
Deddfwriaeth a Pholisiau sy'n rhan o Gyd-destun Eiriolaeth yng Nghymru	10
Dull yr Ymchwil	16
Dealltwriaeth o Eiriolaeth	20
Cysondeb o ran Mynediad at Wasanaethau ledled Cymru	30
Mynediad at Eiriolaeth	40
Arweiniad Strategol	50
Rheoleiddio, Arolygu a Monitro	60
Casgliad	64
Argymhellion	68
Atodiad	72

Rhagair

gan Keith Towler,
Comisiynydd Plant Cymru

Rwyf wedi defnyddio fy mhwerau¹ i adolygu'r defnydd a wneir o wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen.² Roeddwn yn awyddus i weld a yw'r trefniadau'n llwyddo i gyfnerthu a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc a diogelu eu lles, ac i ba raddau y maent yn gwneud hynny. Rwyf wedi gwneud hyn mewn ymateb i'r dystiolaeth a gesglais yng Nghymru pan oeddwn yn cyfweld pobl ifanc ar gyfer yr adroddiad a gyhoeddais y llynedd dan y teitl 'Ar Goll ar ôl Gofal'.³ Nid oedd llawer o blant a phobl ifanc yn gwybod bod gwasanaethau eiriolaeth yn bodoli na bod ganddynt hawl i gael eiriolaeth os ydynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, yn gadael gofal neu'n blentyn mewn angen.

¹ Pwerau a swyddogaethau sy'n deillio o'r Ddeddf Safonau Gofal (2000) a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (2001)

² Fel a ddiffiniwyd yn Children Act 1989 a Children (Leaving Care) Act 2002

³ Comisiynydd Plant Cymru, (2011) *Ar Goll ar ôl Gofal*
www.complantcymru.org.uk

Mae ar bob plentyn a pherson ifanc angen rhywun i'w helpu i fynegi ei farn neu i siarad ar ei ran rywbryd neu'i gilydd yn ystod ei fywyd. Bydd plant a phobl ifanc yn aml yn troi at rieni, ffrindiau neu aelodau eraill o'r teulu i gael y cymorth hwn, ond i rai plant a phobl ifanc nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Mae eiriolaeth yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o alluogi plant a phobl ifanc i ddiogelu eu hunain drwy ymarfer eu hawliau, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac yn fwyaf penodol i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed pan fo penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud. Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaeth statudol⁴ i ddarparu 'llais' neu eiriolwr proffesiynol annibynnol i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen, sydd eisieu cymryd rhan neu wneud sylwadau am benderfyniadau sy'n ymwneud â'u bywydau. Dylid darparu eiriolwr proffesiynol annibynnol hefyd os yw plentyn neu berson ifanc am wneud cwyn.

Mae rhai o blant a phobl ifanc mwyaf bregus Cymru'n dal heb fod yn ymwybodol o'u hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol i fynegi eu barn. Mae'r adolygiad a'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y systemau a'r prosesau a ddylai fod wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gael i'r plant a'r pobl ifanc fregus hynny sydd ei hangen. Mae Cymru wedi bod ar daith eiriolaeth ers dros 10 mlynedd, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Waterhouse,⁵ ac eto nid oes ganddi drefniadau cadw cydbwysedd clir sy'n sicrhau bod pob plentyn sydd â hawl i eiriolaeth hefyd yn cael cyfle go iawn i fanteisio ar eiriolaeth.

Ni allwn ganiatáu i'r sefyllfa hon barhau a rhaid inni fynd i'r afael â hi fel mater o frys. Mae'r adolygiad hwn yn nodi nifer o argymhellion er mwyn adfywio diddordeb partneriaid cenedlaethol a lleol mewn cael Cymru'n ôl ar y trywydd i gyflawni ei dyhead ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'n amser yn awr am arweiniad cryf, atebolrwydd a dull systematig o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc yn cael ei droi'n ganlyniadau go iawn y gellir eu mesur.

Mae'r rhain yn heriau i bob un ohonom sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru, a throstynt, er mwyn sicrhau ein bod yn cael pethau'n iawn i blant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Rhaid i ni roi blaenoriaeth i wireddu hawliau plant a phobl ifanc a gwneud yn si r ein bod yn eu diogelu drwy roi llais iddynt. Gofynnaf i chi roi sylw i ganfyddiadau fy adolygiad a chanolbwyntio ar wrando ar blant a phobl ifanc a'u cynorthwyo i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

I gloi, hoffem ddiolch i'r plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr eiriolaeth a rhanddeiliaid eraill a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn; rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad yn fawr iawn.



Mawrth 2012

⁴ Dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

⁵ Waterhouse, R., (2000) *Lost in Care (Ar Goll mewn Gofal – crynodeb Cymraeg)*

Prif ganfyddiadau'r adolygiad

Fe wnaeth Comisiynydd Plant Cymru ymgymryd â'r gwaith o adolygu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol proffesiynol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen (yn ôl y diffiniad yn Adran 17 o Ddeddf Plant 1989) yn ystod 2011. Fe wnaeth yr adolygiad ddarganfod fod gwasanaeth eiriolaeth annibynnol proffesiynol yn cael ei gynnal gan y 22 awdurdod lleol. Er hynny, mae rhai o blant a phobl ifanc mwyaf bregus Cymru ddim yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn gwasanaeth o'r fath i gynrychioli eu barn.

Mae plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, a phlant mewn angen yng Nghymru sydd eisieu cymorth a chynghor gan eiriolwr proffesiynol annibynnol i'w helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn cael cam. Er bod llawer yn cael gwasanaeth rhagorol gan eiriolwyr proffesiynol annibynnol mae eraill ar eu colled. Dylai strwythurau cenedlaethol a lleol fod wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc hyn yn gallu cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a chael budd ohonynt. Mae'r adolygiad yn cynnwys nifer o brif ganfyddiadau sy'n cael eu trafod yn fanwl yn adroddiad llawn yr adolygiad ac sy'n cael eu nodi'n fyr yma.

1. Yn aml iawn nid yw plant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael cysylltiad ag eiriolydd proffesiynol annibynnol yn deall beth mae 'eiriolaeth' yn ei olygu.

2. Nid yw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed bob amser yn sylweddoli beth yw manteision eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac nid ydynt yn ystyried mynediad fel hawl awtomatig y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy.

3. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen sy'n defnyddio eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn llawer is nag y byddem yn ei ddisgwyl er bod nifer y plant sydd yn yr amgylchiadau hyn ar gynnydd.

4. Mae'r broses o gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn amrywio o ran y meini prawf ar gyfer mynediad, â phwyslais ar blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal, a darpariaeth lai cyson ar gyfer plant mewn angen, plant sydd ag anabledd a'r rhai sydd yn y system amddiffyn plant a chyfiawnder ieuencid. Mae hyn yn golygu nad yw plant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru.

5. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i wybod y gallant fanteisio ar wasanaethau eiriolwr proffesiynol annibynnol os oes arnynt eisieu un a chael gwybodaeth i'w helpu i ddeall beth y gall eiriolwr proffesiynol annibynnol ei gynnal. Mae dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'u hawl i gael eiriolwr proffesiynol annibynnol yn dibynnu'n aml ar wybodaeth, barn ac arferion gweithiwr cymdeithasol plentyn neu berson ifanc a barn ac arferion Swyddog Cwynion.

6. Tueddir i ganolbwyntio ar ddarpariaeth eiriolaeth i bobl ifanc gan gymryd nad oes ar blant angen cymorth eiriolwr proffesiynol annibynnol, neu na allant gael budd o'i wasanaeth.

7. Nid yw rhieni, rhieni maeth a gwarcheidwaid yn cael digon o wybodaeth am eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

8. Prin yw dealltwriaeth rhieni corfforaethol o'r cyfrifoldeb statudol i ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Nid yw paneli rhianta corfforaethol yn edrych fel mater o drefn a yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n ddigonol i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

9. Gall dealltwriaeth ac ymrwymiad corfforaethol i werth a phwrpas eiriolaeth chwarae rhan bwysig yn y broses o annog mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc gymwys. Mewn awdurdodau lleol lle mae hyn yn digwydd, mae'n cael ei gefnogi gan ymrwymiad i drefniadau sicrhau ansawdd ac agwedd gadarnhaol at gwynion ynghyd ag adborth gan ddefnyddwyr am wasanaethau sy'n parchu llais y plentyn neu'r person ifanc.

10. Nid oes digon o eglurder na chysondeb ynglŷn â'r ffordd y mae gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael eu comisiynu yng Nghymru. Mae'r ddibyniaeth bresennol ar gontractau tymor byr yn tanseilio sefydlogrwydd y ddarpariaeth a datblygiad gwasanaethau cadarn.

11. Ceir darpariaeth eiriolaeth annibynnol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol ond mae'r ddarpariaeth mewn gwahanol rannau o Gymru yn anghyson.

12. Nid oes arweiniad strategol cryf gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc gymwys yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru.

13. Nid yw'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009, wedi gallu cyflawni ei amcanion na darparu arweiniad strategol ar eiriolaeth yng Nghymru.

14. Nid yw Uned Datblygu Eiriolaeth Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn 2009, wedi cyflawni ei chylch gorchwyl arfaethedig. Nid yw wedi darparu fframwaith i gefnogi arweiniad strategol cenedlaethol ar eiriolaeth yng Nghymru. Mae ei lefelau staffio wedi gostwng ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod statws yr Uned yn is hefyd.

15. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn 2009. Canllawiau cynghori yn unig yw'r rhain, ac oherwydd hynny nid ydynt wedi cael digon o effaith ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol cyson i blant a phobl ifanc gymwys yng Nghymru. Cyhoeddwyd ymgynghoriad drafft ar ganllawiau statudol arfaethedig ar wasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn Ionawr 2011, ond nid yw'r rhain wedi arwain at ganllawiau statudol newydd hyd yn hyn.

16. Nid yw gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal neu blant mewn angen yng Nghymru'n cael eu monitro, eu harolygu a'u rheoleiddio'n flynyddol nac yn systematig.

Ceir rhestr lawn o'r argymhellion ar dudalen 68.

Cyflwyniad

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar eiriolaeth yn nodi bod buddiannau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u hyrwyddo'n well drwy gael hyrwyddwr personol ar ffurf eiriolwr a all chwarae rhan weithredol yn eu bywydau. Mae hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed yn uniongyrchol pan fo materion yn effeithio arnynt hwy yn un o brif elfennau agwedd Llywodraeth Cymru at ddatblygu polisi sydd wedi'i seilio'n gadarn ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.⁶ Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers tro i ddarparu mynediad at wasanaethau eiriolaeth effeithiol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yng Nghymru.

⁶ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) www.childcomwales.org.uk/en/rights/

Pwy all ddarparu eiriolaeth?

Gall rôl eiriolwr gael ei chyflawni mewn nifer o ffordd:

- gan yr unigolyn (hunaneiriolaeth);
- gan aelod o'r teulu neu ffrind (eiriolaeth anffurfiol neu eiriolaeth cymheiriaid);
- gan weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn, fel athro neu athrawes, gweithiwr ieuencid neu weithiwr gofal (eiriolaeth ffurfiol);
- gan eiriolwr proffesiynol annibynnol (eiriolaeth broffesiynol annibynnol).

Fel arfer, mae eiriolwr proffesiynol annibynnol yn weithiwr cyflogedig, hyfforddedig sydd wedi cymhwyso i helpu plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Efallai na fydd plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yn gallu cael yr un gefnogaeth gan aelodau o'r teulu â phlant a phobl ifanc eraill, ac mae'n hanfodol bod y grwpiau hyn o blant a phobl ifanc yn cael cyfle i gael help gan rywun a all sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

Y trefniadau presennol ar gyfer darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru

— Mae'n ofynnol i bob un o'r 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru ddarparu mynediad at wasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol a fydd yn darparu eiriolaeth statudol a chefnogaeth ehangach i gynorthwyo grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n cael eu diffinio mewn deddfwriaeth, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen.

— Mae tri phrif ddarparwr eiriolaeth yn y 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru: sef Gweithredu dros Blant, Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol a Thros Gynnal.

— Mae'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn darparu trosolwg strategol annibynnol ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru a rhan o'i gylch gorchwyl yw cyflwyno argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

— Darperir mynediad cyffredinol at eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru gan Meic, llinell gymorth genedlaethol, sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, ac yn darparu un pwynt cyswllt drwy alwad ffôn neu neges testun, 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r llinell gymorth hon yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gwasanaeth cenedlaethol hwn yn gwneud y cysylltiadau angenrheidiol â gwasanaethau proffesiynol annibynnol rhanbarthol lleol pan fydd angen gwasanaeth personol mwy arbenigol.

Beth yw eiriolaeth?

“Mae eiriolaeth yn broses sy'n helpu rywun i siarad dros ei hun, i gael mynediad i wybodaeth a gwybod am ei hawliau, ac i atal, dechrau neu newid rhywbeth.”

Llywodraeth Cymru (2009)⁷

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009) *Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc*. Caerdydd

Deddfwriaeth a Pholisiau sy'n rhan o Gyd-destun Eiriolaeth yng Nghymru

Yn Neddf Plant 1989 y rhoddwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol am y tro cyntaf i sefydlu trefniadau ar gyfer ystyried cwynion a sylwadau gan blentyn neu berson ifanc sy'n 'derbyn gofal' neu sydd 'mewn angen'.⁸

Yn 1991 cadarnhawyd **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig**. Mae'r Confensiwn yn cynnwys dwy hawl benodol sy'n ymwneud a llais y plentyn:

— **Erthygl 12:** Mae gennych hawl i ddweud beth yn eich barn chi ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi a dylai ystyriaeth gael ei rhoi i'ch barn chi.

— **Erthygl 13:** Mae gennych hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol i chi neu eraill.

Tanlinellwyd pwysigrwydd llais effeithiol i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, a'r angen am lais o'r fath, gan gyfres o adroddiadau damniol ar gam-drin ac amddiffyn plant. Pwysleisiodd Jones (1999),⁹ Waterhouse (2000)¹⁰ a Carlile (2002)¹¹ fod gwrandio ar blant a phobl ifanc a chymryd eu barn o ddifrif yn elfen hanfodol o ddiogelu plant ac, yn bwysig iawn, o alluogi plant a phobl ifanc i ddiogelu eu hunain.

Yn fwyaf penodol, roedd **Adroddiad Waterhouse (2000), 'Ar Goll mewn Gofal'**, yn cynnwys nifer o argymhellion, gan gynnwys:

— sefydlu Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, a'r cyfrifoldeb o fonitro'r trefniadau ar gyfer eiriolaeth plant a chwynion;

— sefydlu swyddog cwynion plant ym mhob awdurdod lleol;

— sefydlu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

⁸ Deddf Plant 1989 (Dyfyniadau o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg a geir isod)
- Adran 24D – 'every local authority shall establish a procedure for considering representations (including complaints) made to them by... The children and young people for whom this legislation applies include Looked After Children, Care Leavers and Children in Need.'
- Adran 26D – 'Advocacy - (1) Every local authority shall make arrangements for the provision of assistance to persons who make or intend to make representations under section 24D and children who make or intend to make representations under section 26, (2) The assistance provided under the arrangements shall include assistance by way of representation.'

⁹ Jones, A., (1996) *Report of the Examination Team on Child Care Procedures and Practice in North Wales*. Llundain, HMSO.

¹⁰ Waterhouse, R., (2000) *Report of the Tribunal of the Inquiry into the abuse of children in care in the former county council areas of Gwynedd and Clwyd since 1974, Lost in Care (Ar Goll mewn Gofal – crynodeb Cymraeg)*

¹¹ Carlile, Yr Arglwydd A. (2002) *Peth Rhy Ddifrifol: Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan yr NHS yng Nghymru*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘**Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Plant**’ yn 2000.¹² Roedd y ddogfen hon yn cydnabod pwysigrwydd gwrandio ar blant mewn cynadleddau amddiffyn plant ac yn cyfeirio’n benodol at yr angen i sefydlu darpariaeth eiriolaeth. **Penodwyd y Comisiynydd Plant annibynnol cyntaf yng Nghymru yn 2001. Yn 2002, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen** i adolygu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ac **yn 2003 cyhoeddwyd Safonau Cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth.**

Yn yr un flwyddyn fe wnaeth **Comisiynydd Plant Cymru gynnal adolygiad** o’r trefniadau ar gyfer cwynion plant ac eiriolaeth yng ngwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Daeth adroddiad yr adolygiad ‘**Datgan Pryderon**’¹³ i’r casgliad bod y gwaith o weithredu llawer o argymhellion Waterhouse ynghylch cwynion ac eiriolaeth yn anghyson ledled Cymru a gwnaeth nifer o argymhellion er mwyn mynd i’r afael â hyn. Wrth ymateb i’r Adolygiad yng Ngorffennaf 2003, dywedodd y Gweinidog ar y pryd dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“Mae darparu eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu’n well a gall ddatgelu arferion gwael, sefyllfaoedd lle mae plant yn cael eu trin yn annheg neu’n cael eu cam-drin a bwlio. Yr wyf am i’r gwasanaeth hwn fod ar gael i bob plentyn yng Nghymru ond rwy’n sylweddoli nad yw hyn yn mynd i ddigwydd dros nos.”¹⁴

Roedd yr adroddiad yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Uned Eiriolaeth Plant i weithio mewn partneriaeth â darparwyr eiriolaeth ac awdurdodau lleol er mwyn hybu’r gwaith o rannu arferion da, datblygu canllawiau a darparu hyfforddiant. Derbyniwyd yr argymhelliaid hwn gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad â’i chylch gorchwyl cytunedig yn 2004.

Yn 2004 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Plant a Phobl Ifanc – Gweithredu’r Hawliau¹⁵ gan fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn fel sail ar gyfer polisiau yn y maes hwn. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu’r Confensiwn a phrotocolau cysylltiedig fel sail i’w holl waith gyda phlant a phobl ifanc.

Gosododd **Deddf Plant 2004**¹⁶ ragor o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i ganfod dymuniadau a theimladau plant mewn angen, a phlant sy’n derbyn gofal. Pan oedd penderfyniadau’n cael eu gwneud ynglŷn â’u gofal roedd yn ofynnol i awdurdodau ystyried eu dymuniadau a’u teimladau.

Yn 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Astudiaeth o Wasanaethau Adfocatiaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.¹⁷ Gan roi sylw i’r pryderon a amlinellwyd yn ‘Datgan Pryderon’ ddwy flynedd yn gynharach cyfeiriodd yr adroddiad at ddarpariaeth eiriolaeth dameidiog ac anghyson ar gyfer plant yng Nghymru. **Yn 2005 hefyd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Ein Cadw’n Ddiogel’,**¹⁸ adolygiad o ddiogelu plant sy’n agored i niwed.

O ganlyniad i’r holl negeseuon hyn, a oedd yn deillio o’r adroddiadau a’r grŵp gorchwyl, cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y datganiad isod yn 2007:¹⁹

“Mae canlyniadau’r ymarferiad ymgynghori ac, yn arbennig, y neges gref bod potensial i bob plentyn a pherson ifanc fod yn agored i niwed, ac y dylent allu cyrchu at ryw lefel o eiriolaeth, wedi symud ein syniadau ymlaen. Yr wyf o’r farn ar hyn o bryd y dylai unrhyw fframwaith newydd i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth gynnig rhyw fath o ddarpariaeth i bawb, yn ogystal â darpariaeth fwy arbenigol i grwpiau sy’n neilltuo o agored i niwed. Drwy hynny, bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, lle bynnag y mae, a beth bynnag fo’i amgylchiadau, yn gallu cyrchu at gymorth eiriolaeth yn ddiogel ac yn ddirwyst.”

¹² Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r Adran Iechyd, (2000) *Gweithio gyda’n gilydd i ddiogelu plant*. Llundain: HMSO

¹³ Comisiynydd Plant Cymru (2003) www.complantcymru.org.uk

¹⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt, Y Gweinidog dros lechyd, datganiad i’r wasg 24.7.2003

¹⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2004) *Plant a phobl ifanc: Gweithredu’r Hawliau*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

¹⁶ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents>

¹⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2005) *Astudiaeth o Wasanaethau Adfocatiaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

¹⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2006) *Ein Cadw’n Ddiogel: Adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

¹⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, Datganiad gan y Cabinet ar Wasanaethau Eiriolaeth Plant: Rhagfyr 2007

Yn 2008 cyhoeddwyd y **‘Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaeth Eirioli yng Nghymru yn y Dyfodol**.²⁰ Prif ddarpariaethau’r fframwaith newydd oedd:

— Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol i gadw golwg annibynnol, strategol ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru a chyflwyno argymhellion a darparu cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Lywodraeth Cymru;

— Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru, â’i phrif swyddogaethau’n cynnwys comisiynu, rheoli a monitro Gwasanaeth Eirioli a Chynghori i Gymru Gyfan ac, ar y cyd â’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, i ddatblygu’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y gwasanaeth a’r safonau galwedigaethol a’r ddarpariaeth hyfforddiant i staff sy’n gweithio yn y gwasanaeth;

— Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol yn darparu un pwynt cyswllt drwy ffôn neu neges testun saith niwrnod yr wythnos i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, y cyfeirir ato fel Meic;

— Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig wedi’i gomisiynu’n lleol/rhanbarthol ac yn cwmpasu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg, gan roi sylw arbennig i ddarparu eiriolaeth statudol a chymorth ehangach i gefnogi plant a phobl ifanc sy’n agored i niwed.

Yn 2008 adroddodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd ar Wasanaethau Eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cyflwynodd yr adroddiad 12 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Cafodd naw ohonynt eu derbyn, a chytunwyd yn rhannol neu mewn egwyddor ar y gweddill. Mynegodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc siom mai cytuno’n rhannol yn unig a wnaethpwyd ar ei argymhelliad olaf ynglŷn â sefydlu uned eiriolaeth genedlaethol yn cael ei hariannu’n ganolog â chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol. Yn ei adroddiad craffu dilynol yn 2008 gwnaeth y Pwyllgor bum argymhelliad arall, gan gynnwys sefydlu gwasanaeth eirioli a chynghori drwy alwad ffôn a neges destun i blant a phobl ifanc.

Y Canllawiau Presennol

Yn 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y **‘Canllaw i’r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru**’.²¹ Y prif ddarpariaethau yn y model yw:

— gwasanaethau eiriolaeth i fod yn fwy hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf bregus;

— darparwyr eiriolaeth i fod yn annibynnol ar y sefydliadau sy’n comisiynu’r gwasanaeth;

— sicrhau bod materion sy’n cael eu codi gan blant a phobl ifanc yn cael eu cymryd o ddifrif;

— sicrhau bod materion sy’n cael eu codi gan blant a phobl ifanc yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol;

— eiriolaeth yn cael ei hystyried fel rhywbeth sy’n cyfrannu tuag at gyfranogiad a chael mynediad at hawliau;

— eiriolaeth i’w hyrwyddo drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhliith plant, pobl ifanc ac oedolion;

— proses a chanlyniadau eiriolaeth i fod yn glir;

— angen cysondeb a gwasanaethau o safon uchel i bawb ym mhob rhan o Gymru.

Fodd bynnag, canllawiau ‘cynghori’ yn unig oedd y rhain ac nid ydynt wedi cael eu gweithredu’n gyson ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mewn llawer o awdurdodau lleol yr unig blant sy’n gallu cael eiriolaeth yw’r rhai sy’n gymwys yn statudol i gael eiriolaeth.

Ym Medi 2010, cyhoeddodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad, **‘Adolygiad Pellach o Ddatblygiadau yn Narpariaeth Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru**’.²² Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at faterion o bwys, gan gynnwys pryder ynglŷn â phrynu heb gontract, arolygu a rheoleiddio, a’r diffyg cynnydd cyffredinol wrth weithredu model eiriolaeth Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 13 argymhelliad i Lywodraeth Cymru.

Yn Ionawr 2011 cyhoeddwyd ymgyngoriad ar ganllawiau statudol arfaethedig yn lle’r canllawiau ‘cynghori’ presennol (daeth y cyfnod ymgyngori i ben yn Ebrill 2011). Rydym yn dal i ddisgwyl i’r canllawiau statudol terfynol gael eu cyhoeddi.

Y sefyllfa bresennol yng Nghymru yw bod gennym Fwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, llinell gymorth genedlaethol 24 awr (meic), Safonau Cenedlaethol, ac ym mhob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru mae plant a phobl ifanc sy’n gymwys yn cael mynediad at ryw fath o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Cafwyd neges gref a chyson hefyd gan y Llywodraeth fod eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc yn beth da. Er 2000 gwelwyd nifer o ddogfennau fframwaith polisi, adolygiadau, ac adroddiadau ar y ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru. Serch hynny, cynhaliwyd yr adolygiad hwn oherwydd pryder parhaus nad yw’r bwriadau hyn yn cael eu gwireddu.

²⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2008) *Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaeth Eirioli i Blant yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

²¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009) *Canllaw i’r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru*. Caerdydd (Canllaw Cynghori)

²² Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2010) *Adolygiad Pellach o Ddatblygiadau yn Narpariaeth Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru*

Dull yr Ymchwil

Lansiwyd adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen ym Mai 2011, gan ddefnyddio pŵer y Comisiynydd i adolygu a monitro'r trefniadau ar gyfer darparu eiriolaeth drwy'r pwerau a'r swyddogaethau sy'n deillio o adran 73 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Diben yr adolygiad yw canfod pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc. Mae'r adolygiad wedi ymdrin â threfniadau Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer darparu eiriolaeth ac amlinellwyd trefniadau'r adolygiad yn y cylch gorchwyl. (Atodiad 1)

Y Comisiynydd Plant a'i dîm fu'n gwneud yr holl waith ymchwil ac yn cynnal y cyfweiliadau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar farn plant a phobl ifanc, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr eiriolaeth a rhanddeiliaid eraill.

Plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen

Casglwyd barn plant a phobl ifanc mewn nifer o wahanol ffyrdd. Roeddem yn awyddus i ddeall y profiadau cadarnhaol a negyddol yr oedd plant a phobl ifanc wedi'u cael yng nghyswllt eiriolaeth. Defnyddiwyd nifer o ddulliau:

— cwblhaodd 457 o blant yn derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, neu blant mewn angen holiadur yn gofyn am eu barn ynglŷn ag eiriolaeth. Cafodd yr holiadur naill ai ei gwblhau'n electronig ar ein gwefan, neu anfonwyd copi caled i'n swyddfa;

— cynhaliwyd 10 grŵp ffocws rhwng Medi a Thachwedd 2011 a chymerodd dros 100 o blant ran ynddynt;

— cyfarfu'r Comisiynydd â phlant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, a phlant mewn angen mewn pedwar gwahanol fforwm a gynhaliwyd gan wahanol wasanaethau awdurdodau lleol rhwng Awst a Thachwedd 2011;

— gwybodaeth ddiennw o ffeiliau gwaith achos y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth;²³

— barn a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen sydd wedi cyfarfod y Comisiynydd yn ystod ei bedair blynedd yn y swydd.

Llywodraeth Cymru

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r unigolion a ganlyn:

— y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol;

— y prif Was Sifil â chyfrifoldeb am eiriolaeth yn ei bortffolio;

— Rheolwr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad Llywodraeth Cymru;

— Cadeirydd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol;

— pedwar aelod Bwrdd o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, gan gynnwys dau aelod Bwrdd ifanc;

— Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Awdurdodau Lleol

— cwblhaodd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru holiadur manwl yn ymwneud â darparu eiriolaeth;

— bu wyth awdurdod lleol yn ymwneud â'r gwaith maes a wnaethpwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn cynnal cyfweiliadau fel sail i'r ymchwil. Cynhaliwyd cyfweiliadau ag uwch reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddog Adolygu Annibynnol, Swyddog Cwynion, aelod etholedig â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc, a gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dewiswyd yr awdurdodau hyn fel sampl yn cynrychioli gwahanol ardaloedd daearyddol, â chyfuniad o ardaloedd trefol a gwledig ledled Cymru.

Darparwyr eiriolaeth

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r canlynol:

— Cyfarwyddwyr / Rheolwyr o wasanaethau eiriolaeth Gweithredu dros Blant, Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol a Tros Gynnal;

— Rheolwr Meic, gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth dros y ffôn Llywodraeth Cymru;

— Cyfarwyddwr SNAP Cymru;

— Aelod o staff Llais Defnyddwyr.

Cafodd y Swyddfa hefyd wybodaeth ysgrifenedig gan nifer o unigolion o sefydliadau darparu eraill neu gyn ddarparwyr.

Rhanddeiliaid

Cyfrannodd y rhanddeiliaid a ganlyn:

— Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru);

— Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;

— NSPCC;

— Barnardo's Cymru.

Roedd y swyddfa wedi gofyn am gyfraniadau unigol i'r adolygiad gan aelodau o'r cyhoedd a oedd â diddordeb, neu gan unrhyw sefydliad a oedd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau eiriolaeth. Cawsom bum cyflwyniad o'r fath.

²³ Gall plant a phobl ifanc gysylltu â Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru os oes ganddynt broblemau neu anawsterau y maent wedi methu â'u datrys mewn ffordd arall. Rhadffôn: 0808 801 1000. Neges destun am ddim: 80800 (dechrau'r neges â COM)

Dealltwriaeth o Eiriolaeth

4.1 Dealltwriaeth plant a phobl ifanc

Deall 'eiriolaeth'

Un o'r anawsterau y sylwodd y Comisiynydd arno yn ystod yr adolygiad hwn yw dealltwriaeth o'r term 'eiriolaeth'. Mae gan eiriolaeth ystyr eang a gallai llawer o wahanol wasanaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc gael eu hystyried fel rhai sy'n darparu eiriolaeth. Mae'n bwysig bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn deall ac yn gwneud defnydd priodol o'r gwahanol fathau o eiriolaeth.

Nid oedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r adolygiad yn deall ystyr y term eiriolaeth (neu 'advocacy' yn Saesneg):

"Dw i erioed wedi clywed y gair – mae'n swnio fel afiechyd."

"Rwy'n gwybod beth yw e oherwydd rwy'n gwyllo CSI Miami."

"Afocado?"

"Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd ystyr y gair 'eiriolaeth'. Roedd rhaid i rywun egluro wrtha i."

Dyweddodd gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill fod y gair 'eiriolaeth' yn unig yn gallu rhwystro pobl rhag defnyddio'r gwasanaethau, ond bod plant a phobl ifanc ar y cyfan yn deall y cysyniad o gael eu cynorthwyo i leisio eu barn neu i wneud cwyn. Dywedodd Gweithwyr Cymdeithasol ei bod yn hollbwysig ein bod yn defnyddio enghreifftiau ac yn egluro rôl eiriolwr wrth gynnig y gwasanaeth i blant a phobl ifanc, yn hytrach na chanolbwyntio ar y term eiriolaeth ei hun: "Rydyn ni'n dweud wrthyn nhw beth mae eiriolwyr yn ei wneud. Mae eiriolaeth yn air dieithr iddyn nhw."

Deall fod eiriolaeth ar gael

Nid yw'n dderbyniol bod plant a phobl ifanc yn y system ofal nad ydynt yn gwybod beth yw eiriolaeth. Dywedodd nifer fawr o'r plant a'r bobl ifanc a gyfrannodd tuag at yr adolygiad hwn y byddent wedi hoffi cael cysylltiad ag eiriolwr annibynnol ond nad oedd hynny wedi bod yn bosibl.

O'r 457 o bobl ifanc a ddychwelodd holiaduron, dywedodd 128 ohonynt nad oedd neb wedi sôn wrthynt am eiriolaeth neu nad oeddent wedi cael cynnig eiriolwr:

"Dw i mewn gofal ers pan o'n i'n 8 oed, a dw i'n 17 rwan, a dw i erioed wedi clywed amdano fo."

"Doeddwn i ddim yn gwybod am weithwyr eiriolaeth tan oeddwn i'n 17. Biti na fyddwn i'n gwybod amdany'n nhw'n gynharach. Maen nhw'n adnodd gwych."

"Ro'n i mewn gofal pan o'n i'n 12-16 oed, ac ro'n i'n byw mewn llety gwely a brecwast pan o'n i'n 16-18 oed. Es i'n isel fy ysbryd, a phan o'n i'n 14 ro'n i ar feddyginiaeth. Weithiau ro'n i'n symud bob dwy neu dair wythnos. Ches i erioed eiriolwr."

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ag achosion a ddygwyd i sylw Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Comisiynydd Plant. Clywodd y Comisiynydd Plant am brofiadau tebyg pan fu'n cyfarfod gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwella dealltwriaeth pobl ifanc

Roedd gan bobl ifanc rai syniadau pendant ynglŷn â'r ffyrdd gorau o helpu'r rhai sydd â hawl i eiriolwr i ddeall beth mae hynny'n ei olygu.

— er mwyn i'r term 'eiriolaeth' gael ei ddeall yn iawn, awgrymodd y bobl ifanc y dylai gael ei gyflwyno ag 'is-bennawd' pan fyddai'n cael ei ddefnyddio. Awgrymodd un ferch ifanc: **"Eiriolaeth – Rhywun ar eich ochr chi. Rhywun sy'n sefyll fyny drosoch chi";**

— yr eiriolwyr eu hunain yw'r bobl orau i egluro wrth blant a phobl ifanc beth yw rôl eiriolwr;

— dylai hyn gael ei egluro wrth bob plentyn a pherson ifanc sydd â hawl i eiriolwr proffesiynol annibynnol, gan eiriolwr, ar yr adeg y mae eu hawl yn dod yn weithredol.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

1. Nid yw'r term 'Eiriolaeth' yn hawdd i blant a phobl ifanc ei ddeall a dylai bob amser gael ei gyflwyno ag eglurhad clir mewn geiriau hawdd i'w deall.

2. Dylai pob plentyn a pherson ifanc cymwys gael eiriolwr ar yr adeg y maent yn ymuno â'r system statudol. Byddai'r eiriolwr hwn yn gyfrifol am egluro wrth y plentyn neu'r person ifanc beth yw ei rôl.

4.2 Dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol

Mae gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc rôl allweddol, sef hybu mynediad a dealltwriaeth o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Y gweithwyr hyn yn aml yw'r porth sy'n arwain plentyn neu berson ifanc at eiriolwr.

Deall 'eiriolaeth'

Roedd gan Weithwyr Cymdeithasol ddealltwriaeth dda ar y cyfan o egwyddorion eiriolaeth:

"Rhywun sy'n gallu helpu plentyn i fynegi ei farn mewn sefyllfaedd cymhleth – yn rhoi grym, yn herio'r system."

"Mynegi dymuniadau a barn plant – cyngor a chefnogaeth i fynegi barn plant os nad ydynt eisïau bod yn bresennol (mewn adolygiad). Sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed."

"Helpu i sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed mewn sefyllfaedd lle mae mater penodol yn ymwneud â'r plentyn. Helpu i fynegi barn y plentyn er mwyn iddi gael ei hystyried."

Fodd bynnag, nid oedd y ddealltwriaeth hon bob amser yn arwain at broses gyson o atgyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Deall bod eiriolaeth yn fanteisiol

Er bod gweithwyr proffesiynol yn gallu mynegi egwyddorion eiriolaeth nid oeddem mor argyhoeddedig o'r cyfweiliadau gyda gweithwyr proffesiynol bod ganddynt ddealltwriaeth gliir o fanteision eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'n bosibl bod y cyfraddau atgyfeirio isel ar hyd a lled y wlad a'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc y byddent wedi hoffi cael gwasanaeth o'r fath ond nad oeddent yn gwybod amdano yn adlewyrchu hyn.

— Nid oedd rhai plant a phobl ifanc yn cael cynnig eiriolaeth annibynnol gan fod eu gweithiwr cymdeithasol yn credu bod y rôl honno eisoes yn cael ei chyflawni ganddo ef: "Na, dydw i ddim bob amser yn cynnig eiriolwr; fi yw eiriolwr y plant hyn";

— Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn meddwl na fyddai ar y plentyn neu'r person ifanc eisïau eiriolwr, neu bod gormod o bobl yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc yn barod. Yn yr achosion hyn, nid oedd y bobl ifanc eu hunain wedi cael cyfle i ddewis.

Cyfyngiadau ar allu gweithiwr cymdeithasol i eiriol dros blentyn neu berson ifanc

Does dim amheuaeth na all gweithiwr cymdeithasol eiriol dros y plant a'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda hwy. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y rôl hon:

— mae gan weithiwr cymdeithasol nifer o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau eraill a allai wrthdaro â'r rôl o fod yn eiriolwr ac ni all fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Fel y dywedodd rheolwr mewn awdurdod lleol: **"Os oes gan blentyn broblem gyda gweithiwr cymdeithasol nid yw'n mynd i fynd at weithiwr cymdeithasol gyda'r broblem honno, rhaid iddo gael llwybr arall annibynnol."**

— mae rhai gweithwyr cymdeithasol hefyd yn gorfod ystyried beth sydd er pennaf les y plentyn neu'r person ifanc y maent yn gweithio gydag ef a gallai hyn fod yn groes i'r hyn y mae ar y plentyn neu'r person ifanc ei eisïau. Mae eiriolwr proffesiynol annibynnol felly mewn llawer gwell sefyllfa i weithio gyda'r plentyn er mwyn mynegi ei farn, neu gynorthwyo'r plentyn i fynegi ei farn.

Dywedodd un awdurdod fod gweithwyr cymdeithasol a gofaluwr maeth yn darparu eiriolaeth ond y byddai'r awdurdod bob amser yn darparu eiriolwr lle mae gwrthdaro rhwng dymuniadau a barn y plentyn neu'r person ifanc a'r hyn sy'n cael ei asesu fel ei bennaf les. Fe ddywedodd llawer o bobl ifanc nad oeddent yn cytuno â'u gweithiwr cymdeithasol a bod ymyriad gan eiriolwr wedi newid y camau gweithredu a'r cynlluniau:

"Doeddwn i ddim yn fodlon â phenderfyniad roedd fy ngweithiwr cymdeithasol yn ei wneud ar fy rhan i, felly fe wnes i gysylltu â'r gwasanaeth eiriolaeth ac fe wnaethon nhw fy helpu i wneud yn si'r bod rhywun yn clywed beth oedd fy marn a'm teimladau i."

"Wnaeth eiriolaeth fy helpu i oherwydd roedd gen i ormod o ofn dweud beth oedd fy marn i nes i mi gael eiriolwr i'm helpu i ddweud beth o'n i'n ei feddwl."

Gwella rôl gweithwyr proffesiynol

Mae angen galluogi gweithwyr proffesiynol i gael dealltwriaeth weithredol glir o eiriolaeth annibynnol a sut y mae'n ategu eu rôl hwy eu hunain fel eiriolwyr dros y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy. Fel y dywedodd un uwch reolwr: **“Mae arnom angen gwell dealltwriaeth o pa bryd y mae angen rhoi eiriolaeth gan weithwyr cymdeithasol o'r neilltu a gadael i berson annibynnol gamu i mewn fel eiriolwr.”**

Roedd y cyfweiliadau gwaith maes i gyd yn pwysleisio rôl hollbwysig y gweithiwr cymdeithasol wrth hyrwyddo ac egluro wrth blant a phobl ifanc beth yw eiriolaeth. Mae'n bwysig bod hyn yn digwydd yn rheolaidd a bod gweithwyr cymdeithasol yn sôn am eiriolaeth wrth y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy ac yn eu cynorthwyo i gael cysylltiad â darparwr eiriolaeth.

Er hyn, roedd rheolwyr ac ymarferwyr yn dweud bod tensiwn yn bodoli oherwydd bod cynifer o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc, ac nad oeddent yn siŵr a fyddai ar y plentyn eisiau gweld gweithiwr proffesiynol arall. Holwyd y gweithwyr cymdeithasol a fyddent yn sôn am eiriolaeth wrth blentyn yr oeddent yn gweithio gydag ef:

“Mae'n dibynnu ar yr achos; mae yna gynifer o bobl yn ymwneud â'u hachos, a dydyn nhw ddim angen nac eisiau neb arall!”

“Pobl ifanc 15 – 24 oed – maen nhw'n gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae yna ormod o siwtiau i'w gweld yn barod.”

Mae'n ymddangos nad yw rhai gweithwyr proffesiynol yn sôn am eiriolaeth wrth blant a phobl ifanc gan nad ydynt yn meddwl y byddai arnynt eisiau eiriolwr. Mae hwn yn benderfyniad sy'n cael ei wneud yn aml heb drafod y dewisiadau gyda'r person ifanc ei hun. Gall hyn fod yn arbennig o wir yn achos plant a phobl ifanc sydd ag anabledd. Nid yw plant a phobl ifanc sydd ag anableddau bob amser yn cael eu galluogi i ddefnyddio eiriolaeth a gall tybiaethau gael eu gwneud ynglŷn â rhai o'r anawsterau y gallent eu hwynebu wrth gyfathrebu gydag eiriolwr. Rhaid cydnabod yr anawsterau hyn, ond mae'n bosibl eu goresgyn, ac os ceir perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth mae problemau o'r fath yn llawer mwy tebygol o gael eu goresgyn:

“Mae angen i blant sydd ag ystod o anawsterau cyfathrebu ddatblygu perthynas â'u heiriolwr a rhaid iddynt fod yn arloesol yn y ffordd y maen nhw'n cyfathrebu â'r plentyn. Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn llais i'r plentyn, ac nid i'r rhiant neu'r oedolyn.” (Gweithiwr Cymdeithasol)

Dangosodd cyfweiliadau mewn awdurdodau lleol gyda gweithwyr cymdeithasol o wahanol dimau bod y rhan fwyaf o'u gwybodaeth am eiriolaeth yn deillio o'u gradd mewn Gwaith Cymdeithasol ac o gyrsiau hyfforddi, ac mai ychydig o raglenni cynefino ar gyfer staff newydd, os o gwbl, oedd yn cynnwys unrhyw fewnbwn neu gyswllt â'r darparwr eiriolaeth broffesiynol annibynnol, er gwaethaf tystiolaeth i'r gwrthwyneb a gyflwynwyd i'r adolygiad hwn yn holiaduron yr awdurdodau lleol.

Mae fîm yr adolygiad wedi clywed tystiolaeth gan blant a phobl ifanc ynglŷn â'r gwahaniaeth y mae eiriolaeth yn ei wneud i'w bywydau, ac mae wedi dod yn ymwybodol cyn lleied o ddealltwriaeth sydd ganddynt o eiriolaeth yn gyffredinol cyn defnyddio gwasanaeth. Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru'n bryderus felly y gallai gweithwyr proffesiynol allweddol fod yn gwarchod y porth at eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac y gallant weithiau amddifadu plant a phobl ifanc o'r gwasanaeth hwn. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr rheng flaen yn parhau â'u rôl o eiriol dros blant a phobl ifanc pan fo hynny'n briodol a sicrhau hefyd eu bod yn darparu gwybodaeth a chymorth i blant a phobl ifanc i gael mynediad at eiriolaeth annibynnol.

4.3 Dealltwriaeth rhieni corfforaethol

Gofynasom am gael cyfarfod yr aelodau etholedig sydd â chyfrifoldeb cabinet am blant a phobl ifanc er mwyn gweld faint o wybodaeth a dealltwriaeth oedd ganddynt o wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn eu hawdurdod lleol, ac edrych gyda hwy sut yr oedd y rhiant corfforaethol yn ystyried ac yn cyflawni'r cyfrifoldeb penodol hwn.

Deall 'eiriolaeth'

Mae'r arweiniad i rieni corfforaethol a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru²⁴ yn rhoi sylw penodol i eiriolaeth.

“Cwestiwn allweddol 9 – Pa wasanaethau eiriolaeth neu hawliau plant sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal? Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd sicrhau hawliau plant sy'n derbyn gofal a'u grymuso i gael llais mewn materion a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael yn chwarae rhan wrth ddiogelu plant a'u hamddiffyn rhag niwed ac arferion gwael.”

Roedd pob un o'r aelodau cabinet y cyfarfu fîm yr adolygiad â hwy yn gwybod am eu gwasanaeth eiriolaeth lleol ond:

— roedd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwasanaeth yn amrywio'n fawr;

— yn gyffredinol, roedd rhywfaint o ddealltwriaeth o eiriolaeth ymhlith yr aelodau, ond roedd eu dealltwriaeth o'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol a oedd ar gael i'w plant a'u pobl ifanc yn arwynebol.

Mewn rhai awdurdodau lleol clywsom fwy am waith cyffredinol yr awdurdod yng nghyd-destun cyfranogiad plant nag am eiriolaeth, ac er bod ein cwestiynau'n canolbwyntio ar eiriolaeth annibynnol, roedd gan rai cynghorwyr ddiddordeb mewn trafod materion eraill fel tai neu addysg.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

3. Dylai pob rhaglen gynefino ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a staff timau troseddau ieuencid sicrhau bod dealltwriaeth glir o fanteision ac arferion eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Dylai hyn gynnwys dealltwriaeth glir o hawl plant a phobl ifanc i ddarpariaeth o'r fath a chyflwyniad i Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol Cymru.

4. Dylid anfon copi o adroddiadau chwarterol darparwr eiriolaeth i awdurdodau lleol at bob fîm gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a hysbysu staff sut y mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu defnyddio. Dylai'r darparwr eiriolaeth ddod i gyfarfodydd fîm yr awdurdod lleol yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r arferion a'r prosesau lleol.

²⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, (2009) *Pe bai'n blentyn i mi... Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal*

Rhieni corfforaethol yn craffu ar y ddarpariaeth eiriolaeth

Mae'r arweiniad i rianta corfforaethol yn argymhell y dylai'r aelodau fod yn gofyn cwestiynau penodol i'w staff er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau tuag at blant yng nghyd-destun eiriolaeth:

— **Sut a pha bryd y bydd plant sy'n derbyn gofal yn cael gwybod bod gwasanaeth eiriolaeth ar gael iddynt a sut y gallant fanteisio arno?**

— **Dan ba amgylchiadau y maent yn gallu manteisio ar y gwasanaethau hyn?**

Er hyn, canfu'r adolygiad fod:

— eiriolaeth yn rhan ffurfiol o Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor mewn un yn unig o'r wyth awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy;

— yr unig drefniadau ffurfiol eraill ar gyfer adrodd am eiriolaeth yn yr awdurdodau eraill oedd drwy'r panel rhianta corfforaethol;

— mae'r ymrwymiad i baneli rhianta corfforaethol yn amrywio'n fawr o'r naill awdurdod i'r llall.

Gwella rôl rhieni corfforaethol

Mewn un awdurdod lleol roedd y panel rhianta corfforaethol wedi cael ymweliad gan ei ddarparwr eiriolaeth i'w hysbysu ynglŷn ag eiriolaeth. Mae hyn i'w groesawu a dylid ceisio efelychu'r arfer da hwn mewn rhannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â hwy nid oedd tystiolaeth bod yr aelodau eu hunain yn mynd ati'n rhagweithiol i ddysgu am eiriolaeth ac nid oedd cyfleoedd hyfforddi'n cael eu darparu iddynt.

Bydd angen i aelodau etholedig â chyfrifoldeb am blant a chadeirydd y panel rhianta corfforaethol gael digon o wybodaeth am y cyfrifoldeb cyfreithiol sydd ganddynt i ddarparu eiriolaeth yn ogystal â manteision eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Rhaid i rieni corfforaethol weld y gwasanaeth hwn fel blaenoriaeth, nid yn unig oherwydd ei fod yn ddyletswydd statudol, ond hefyd gan ei fod yn ddangosydd hanfodol o'r angen i sicrhau bod trefniadau cadw cydbwysedd yn cael eu sefydlu er mwyn diogelu a hyrwyddo hawliau'r plant bregus y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae diffyg trefniadau adrodd ffurfiol yng nghyd-destun eiriolaeth yn peri llawer o bryder a byddwn yn edrych yn fanylach ar hyn yn yr adran ar ddiffyg rheoleiddio ac arolygu. Nid yw'r ffaith nad oes system ffurfiol yn golygu nad oes gan aelodau etholedig gyfrifoldeb i asesu eu darpariaeth eiriolaeth leol.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

5. Dylid anfon copi o adroddiadau chwarterol darparwr eiriolaeth at bob aelod etholedig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a hysbysu'r aelodau sut y mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu defnyddio. Dylai'r darparwr eiriolaeth ymweld â'r panel rhianta corfforaethol yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r arferion a'r prosesau lleol.

6. Rhaid i aelodau etholedig fod â digon o wybodaeth am y cyfrifoldeb statudol sydd ganddynt i ddarparu eiriolaeth. Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth am eiriolaeth i aelodau etholedig yn rheolaidd.

7. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eiriolaeth yn eitem sefydlog ar agenda'r holl bwyllogorau craffu perthnasol, er mwyn sicrhau bod system gadarn ar gyfer adrodd am eiriolaeth i gynorthwyo gyda rhianta corfforaethol.

4.4 Dealltwriaeth Rhieni a Rhieni Maeth

Mae rhieni, rhieni maeth a gwarcheidwaid yn gweithredu fel eiriolwyr yng nghyd-destun mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol broffesiynol

Mae rhieni a gwarcheidwaid yn aml yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran eu plant a'u pobl ifanc ac yn cael eu gweld fel ffynhonnell bwysig ar gyfer cefnogaeth. Mae gweithwyr proffesiynol yn aml yn dibynnu ar rieni i'w helpu i ddarganfod beth yw barn y plentyn neu'r person ifanc mewn adolygiadau ac ystyriaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaeth:

— dywedodd 59% o'r 457 o blant a phobl ifanc a gwblhaodd holiadur yr adolygiad o eiriolaeth y byddent yn troi at eu teulu neu eu ffrindiau pe bai arnynt angen help i leisio'u barn ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Cyfeiriodd un rhiant maeth at fantais hyfforddiant eiriolaeth lle mae ar gael: **"Rydw i wedi bod ar gwrs hyfforddiant eiriolaeth ac rydw i'n sôn am eiriolaeth wrth bob plentyn sydd gen i."**

Eglurodd un person ifanc sut roedd ei ofalwr maeth wedi ei helpu i gael eiriolaeth pan nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol wedi ei helpu: **"Ie, wnaeth neb o'r gwasanaethau cymdeithasol ofyn i mi na hyd yn oed gynnig eiriolwr i mi. Fy nhad-cu (tad maeth) oedd yr un wnaeth fy helpu i gydag e, dim un ohonoch chi!!!"**

Er hyn, mae adegau pan nad yw rhieni a gwarcheidwaid yn gallu eiriol dros eu plentyn neu pan mae ar y plentyn neu'r person ifanc ei hun eisiau neu angen cymorth annibynnol o'r tu allan i'r teulu er mwyn lleisio'i farn.

Mewn adolygiad o eiriolaeth a gynhaliwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2005²⁵ nodwyd:

"Nododd y rhan fwyaf o bobl ifanc ffafriaeth am adfocatrwr 'proffesiynol' mewn sefyllfaoedd ffurfiol (cyfarfodydd pwysig a phenderfyniadau) a gofalwyr/teulu ar gyfer materion o ddydd i ddydd. Y prif resymau a nodwyd oedd hyfforddiant broffesiynol yr adfocatrwr a gwybodaeth o'r systemau, yn ogystal â'i ffocws ar ddymuniadau pobl ifanc a theimladau (dim gwrthdaro buddiannau) a'r ddarpariaeth o wasanaeth cyfrinachol ac annibynnol."

²⁵ Astudiaeth o Wasanaethau Adfocaciaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru (2005) Caerdydd: Prifysgol Caerdydd

Pwysigrwydd mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol broffesiynol

Mae gweithwyr cymdeithasol a phlant wedi dweud bod rhieni a gwarcheidwaid ambell waith yn gallu ystyried eiriolaeth fel bygythiad neu rywbeth sy'n ymwthio i'w maes cyfrifoldeb hwy. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol: ***"Fel arfer, rwy'n cael ymateb cadarnhaol gan blant a phobl ifanc [pan fydda i'n cynnig eiriolaeth], ond nid gan rieni. Bydd rhieni'n dweud 'na, dim ar unrhyw gyfrif, rydyn ni'n mynegi eu barn'. Rydyn ni wedyn yn gorfod siarad gyda'r rhieni, a cheisio eu cael i ddeall. Mae gwybod bod rhywun arall yn mynd i siarad ar ran eu plentyn yn codi ofn amyn nhw."***

Roedd y gwrthdaro hwn i'w weld hyd yn oed yn fwy amlwg gyda phlant sydd ag anabledau, fel y dywedodd gweithiwr cymdeithasol ym maes anabled: ***"Rwy'n cyfeirio ato [eiriolaeth] os oes yna wrthdaro o ryw fath – nid yw barn y rhiant yr un fath â barn y plentyn o reidrwydd."***

"Mae'n helpu i fynegi barn y plant a'r bobl ifanc – ond nid barn y rhiant. Mae arnom angen gwasanaethau arbenigol ar gyfer y grŵp hwn o blant os nad yw'r plentyn yn gallu cyfathrebu."

Rhodddwyd enghraifft i dîm yr adolygiad o pa mor effeithiol y gallai eiriolwyr proffesiynol annibynnol fod. Dywedwyd wrthynt am dribiwnlys cwynion lle roedd mam yn mynegi dymuniadau ei phlentyn anabl ond yr eiriolwr a oedd wedi bod yn gweithio gyda'r plentyn yn anghytuno â'r hyn roedd hi'n ei ddweud. Llwyddodd y rhiant, y plentyn a'r eiriolwr i weithio gyda'i gilydd, gan gadw perthynas waith, ac roedd y tribiwnlys yn ffyddiog bod barn y plentyn wedi cael ei mynegi. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn gweld hyn fel eiriolaeth broffesiynol annibynnol effeithiol.

Gwella dealltwriaeth rhieni, gwarcheidwaid a rhieni maeth

Gall eiriolwyr a rhieni weithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus a chael canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn os oes gan y rhiant ddealltwriaeth glir o rôl eiriolwr annibynnol.

Mae dealltwriaeth glir o eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn rhoi llawer iawn o rym, ac os yw rhieni a rhieni maeth yn cael eu galluogi i gael y ddealltwriaeth hon bydd eiriolaeth yn llawer llai o fygythiad iddynt ac, o ganlyniad, byddant yn llawer mwy tebygol o hyrwyddo eiriolaeth. Bydd dealltwriaeth glir o eiriolaeth yn eu galluogi i benderfynu pa bryd i ofyn am ragor o gymorth neu i roi anogaeth briodol ac amserol i blant i ofyn am eiriolwr.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

8. Dylai rhieni, gofawyr maeth a gwarcheidwaid gael gwybodaeth glir a hyfforddiant am eiriolaeth annibynnol broffesiynol fel mater o drefn.

9. Dylai'r eiriolwr sy'n cael ei neilltuo ar gyfer plentyn neu berson ifanc fod yn gyfrifol am egluro ei rôl wrth riant, rhiant maeth neu warcheidwad y plentyn.

Cysondeb o ran Mynediad at Wasanaethau ledled Cymru

Un o brif ganfyddiadau'r adolygiad hwn, sy'n ategu canfyddiadau adroddiadau blaenorol ar eiriolaeth, yw bod anghysonderau rhwng y gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae'r adran nesaf yn tynnu sylw at yr anghysonderau hynny a pham y gallent fod wedi datblygu. Byddwn yn dod yn ôl at y materion hyn mewn adrannau eraill yn nes ymlaen.

Mae ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer Atgyfeiriadau, Asesiadau a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant 2010-2011²⁶ yn darparu gwybodaeth am nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael gwasanaethau gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r ystadegau hyn yn rhoi rhyw syniad i ni faint o blant allai fod yn gymwys i gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Ar 31 Mawrth 2011, roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'n darparu gwasanaethau i 25,856 o blant (cynnydd o 3 y cant ers y flwyddyn flaenorol.) O'r rhain:

— roedd 2,881 ar y gofrestr amddiffyn plant,

— roedd 5,415 yn blant yn derbyn gofal, heb gynnwys rhai ar y gofrestr amddiffyn plant, ac

— roedd 17,560 yn blant mewn angen.

Mae hyn yn gynydd o 5% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant, cynnydd o 5% mewn plant sy'n derbyn gofal a chynnydd o 2% mewn plant mewn angen o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Felly, roedd nifer cynyddol o blant a phobl ifanc yn gymwys i gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ystod 2011 -2012.

Mae'r cynnydd hwn mewn niferoedd yn dod ar adeg o gyfyngiadau ariannol difrifol ar Wasanaethau Plant a Theuluoedd awdurdodau lleol sy'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â dal i ddarparu gwasanaethau o bob math. Mae cynnydd yn nifer y plant a llai o adnoddau yn debygol o gael effaith ar y trefniadau lleol sy'n cael eu gwneud ar gyfer darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Daeth yn amlwg o'r ymatebion i holiaduron yr adolygiad, a gwblhawyd gan 22 awdurdod lleol, a thrwy'r wyth ymweliad gwaith maes i awdurdodau lleol, bod y dulliau o sicrhau mynediad at brosesau a darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn amrywio'n fawr mewn gwahanol rannau o Gymru. Bwriad y canlynol yw i ddarparu'r wybodaeth allweddol o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r adolygiad ynghyd ag ystyriaeth fanylach o rai materion sy'n bwysig iawn.

²⁶ http://statswales.wales.gov.uk/index_cy.htm.

5.1 Plant a phobl ifanc gymwys sy'n manteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol

Gofynnwyd i bob awdurdod lleol ddarparu manylion am nifer y plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen a oedd wedi manteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ystod 2010-2011²⁷. Roedd chwe awdurdod lleol yn methu â darparu'r wybodaeth am y rhesymau a ganlyn:

- data heb eu casglu yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- newidiadau i'r ffordd y cofnodir data;
- y darparwr eiriolaeth sy'n cadw'r wybodaeth honno;
- y contract wedi ei newid yn ddiweddar.

O'r data a gafwyd gan yr 16 awdurdod lleol a ddarparodd wybodaeth, roedd nifer y plant a'r bobl ifanc a oedd wedi manteisio ar eiriolaeth yn 2010/11 fel a ganlyn:

- roedd 1,058 o blant a phobl ifanc wedi manteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol;
- roedd y niferoedd yn amrywio o 7 yn yr awdurdod isaf i 224 yn yr awdurdod uchaf;
- roedd cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi manteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn 608, ac yn amrywio o 4 yn yr awdurdod isaf i 122 yn yr awdurdod uchaf;
- roedd cyfanswm y rhai sy'n gadael gofal a oedd wedi manteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn 56, ac yn amrywio o 0 yn yr awdurdod isaf i 13 yn yr awdurdod uchaf;
- roedd cyfanswm y plant mewn angen a oedd wedi manteisio ar eiriolaeth yn 394, ac yn amrywio o 3 yn yr awdurdod isaf i 159 yn yr awdurdod uchaf.

Mae'r awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr o ran nifer y plant a'r bobl ifanc gymwys sy'n defnyddio'u hawl i wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'r darlun ar gyfer plant sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir²⁸ yn ymddangos yn wael iawn. Fodd bynnag, roedd yn anodd casglu gwybodaeth bendant ynglŷn â hyn oherwydd yn aml iawn nid oedd staff awdurdodau lleol yn gwybod yn iawn beth oedd y trefniadau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

10. Dylai awdurdodau lleol adolygu nifer y plant a'r bobl ifanc gymwys yn eu hardal sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn lleol ac ymchwilio i unrhyw batrymau defnydd isel. Dylai hyn gynnwys adolygiad tebyg o drefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliadau y tu allan i'r sir.

²⁸ Plant a phobl ifanc mewn gofal maeth neu leoliadau gofal preswyl y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol.

5.2 Meini prawf cymhwyster a bennwyd yn lleol

Dyweddodd pob awdurdod lleol fod eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal, ond:

- roedd chwe awdurdod yn pennu isafswm oedran ar gyfer manteisio ar wasanaethau, yn amrywio o 5 i 10 oed;²⁹
- dywedodd dau awdurdod lleol nad oeddent yn darparu eiriolaeth i rai dros 21 oed (er gwaetha'r ffaith eu bod yn gymwys i gael cefnogaeth barhaus nes y byddant yn 25 oed os ydynt mewn addysg).

Mae rhai awdurdodau'n defnyddio meini prawf cymhwyster gwahanol ar gyfer plant mewn angen:

- nid oedd un awdurdod lleol yn darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer unrhyw blant mewn angen;
- roedd pedwar awdurdod yn pennu isafswm oedran iau ar gyfer plant mewn angen a allai fanteisio ar y gwasanaeth hwn;
- roedd tri awdurdod yn pennu cyfyngiadau ar y mathau o faterion y gallai plant mewn angen fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth ar eu cyfer.

Roedd yn amlwg fodd bynnag nad oedd mynediad at eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gael i nifer o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a allai fod angen mynediad at wasanaeth o'r fath ac sydd â hawl statudol i hynny.

Mae'n ddigon posibl y byddai dau berson ifanc o awdurdodau lleol cyfagos yn rhannu'r un amgylchiadau, ac eto dim ond un ohonynt fyddai â hawl i fanteisio ar eiriolaeth. Er enghraifft, nid yw un awdurdod yn darparu gwasanaeth eiriolaeth i blant dan saith oed tra mae un arall yn gwneud. Bydd mynediad plentyn at eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn dibynnu mewn rhai achosion ar yr awdurdod lleol y mae'n byw ynddo oherwydd natur amrywiol y gwasanaeth mewn gwahanol rannau o Gymru.

Er bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio mewn theori ar wybodaeth, cyngor a chymorth proffesiynol annibynnol gan Meic, y gwasanaeth eiriolaeth dros y ffôn a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r gwasanaeth hwn yn gallu darparu cymorth personol pe bai angen hynny. Mewn achosion o'r fath bydd Meic yn cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu gwneud hyn bob amser oherwydd y gwahanol feini prawf y mae awdurdodau lleol yn eu cymhwyso i'r ddarpariaeth hon.

²⁹ Ymddengys bod yr isafswm oedran yn cael ei bennu gan yr awdurdod lleol yn hytrach na'r darparwr gan fod isafswm oedran gwahanol yn berthnasol i gontractau a oedd gan bob un o'r tri phrif ddarparwr eiriolaeth.

²⁷ <http://stats.wales.gov.uk/index.htm>.

5.3 Gwariant ar Eiriolaeth

Roedd pob awdurdod lleol yn rhannu ei wariant ar eiriolaeth ym mlynnyddoedd 2010/11 ac 11/12. Mae cyfanswm y gwariant sydd wedi'i ymrwymo i ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yng Nghymru yn ystod 2011-2012, yn ôl adroddiadau'r awdurdodau lleol unigol, yn £1,473,445.

Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cymharu gwariant mewn gwahanol rannau o Gymru gan fod lefel y ddarpariaeth eiriolaeth a oedd yn cael ei hariannu gan y gwasanaethau'n amrywio:

— mae gwahaniaeth sylweddol yng nghyfanswm yr arian sy'n cael ei wario ar contractau unigol - yn amrywio o £22,583 i £227,159;

— er bod hyn yn ymwneud i ryw raddau â nifer y plant mewn ardaloedd awdurdodau lleol nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng poblogaeth a ffactorau eraill fel maint daearyddol neu natur wledig ardaloedd;

— mae'r flaenoriaeth a roddir i'r gwasanaeth hwn gan awdurdodau lleol yn effeithio ar eu gwariant.

Er enghraifft, mae'r ffigurau isod ar gyfer gwariant, a nifer y plant sy'n manteisio ar wasanaethau, yn ymwneud â gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol sydd i gyd yn comisiynu gwasanaethau gan yr un darparwr eiriolaeth. Byddai'n rhesymol tybio y byddai'r darparwr eiriolaeth yn darparu model cyson o eiriolaeth ar gyfer y fair ardal ac, o ganlyniad, y byddai'r costau fesul plentyn yn debyg:

— gwariodd awdurdod Lleol A £100,000 yn ystod 2010/11 gan ddarparu gwasanaeth i 224 o blant ar gost o £446 y plentyn;

— gwariodd awdurdod Lleol B £ 53,000 yn ystod 2010/11 gan ddarparu gwasanaeth i 52 o blant ar gost o £1,019 y plentyn;

— gwariodd awdurdod Lleol C £65,000 yn ystod 2010/11 gan ddarparu gwasanaeth i 29 o blant ar gost o £2,241 y plentyn.

Mae ymatebion i holiaduron gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, a gwybodaeth a gasglwyd o gyfweiliadau gydag awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth, yn awgrymu nad oes dull cyson o benderfynu faint y dylai awdurdod lleol ei wario ar wasanaethau eiriolaeth. Nid yw'n ymddangos bod gwariant yn seiliedig ar angen demograffig mewn ardal lleol.

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yn cael cyfle teg i fanteisio ar eiriolaeth, ac er mwyn diogelu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig, mae angen i awdurdodau lleol seilio contract ar nifer posibl y plant cymwys yn yr awdurdod lleol. Gallai awdurdodau ddefnyddio'r cyfrifiad Plant mewn Angen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r ystadegau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal fel dull clir a chyson o gyfrifo lefelau ariannu priodol ar gyfer pob ardal.

O ran gwariant Gwasanaethau Plant a Theuluoedd awdurdodau lleol ledled Cymru, mae £1.5 miliwn ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn gymharol fach. Nid yw'n ymddangos bod y costau hyn wedi cael eu monitro na'u gwerthuso hyd yn hyn o ran gwerth am arian yn lleol nac yn genedlaethol.

Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol wedi cael eu hatal rhag cynllunio a chomisiynu gwasanaethau gan nad oes canllawiau comisiynu clir a swyddogol eto gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ffaiith nad oes meini prawf ariannu cytunedig yn golygu bod y flaenoriaeth sydd wedi cael ei rhoi i hyn ym mhob awdurdod lleol yn wahanol. Gyda'r newidiadau arfaethedig i drefniadau partneriaeth awdurdodau lleol nid yw'n glir pwy fydd yn atebol am gynllunio a darparu gwasanaethau lleol yn y dyfodol. Mae'n debyg y bydd comisiynu'n dod yn rhan o gyfrifoldebau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd awdurdodau lleol fel sydd wedi digwydd yn barod mewn llawer o awdurdodau lleol.

5.4 Llai o Gyllid

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn poeni bod nifer o awdurdodau lleol wedi lleihau eu gwariant ar eiriolaeth yn ystod y deuddeng mis diwethaf. O'r rhai a ddarparodd y wybodaeth y gofynnwyd amdani:

— roedd pedwar awdurdod lleol wedi lleihau gwariant yn y maes hwn;

— roedd dau wedi cynyddu'r gwariant;

— roedd naw wedi cadw'r gwariant ar yr un lefel.

Roedd saith awdurdod arall heb ddarparu'r wybodaeth i ni. Ar adeg pan mae'r llwyth gwaith yn cynyddu mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu cadw ar eu lefelau presennol o leiaf. Wrth i nifer y plant a'r bobl ifanc gymwys gynyddu, gallai cwtogi neu rewi cyllidebau gael effaith andwyol ar ansawdd a hygyrchedd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Mae darparwyr yn gyffredinol yn cael cyllideb sefydlog i ddarparu gwasanaeth ac ni chyfeirir at niferoedd ym manyleb y gwasanaeth. Mae hyn wedi peri i rai darparwyr ddweud ei bod yn ofynnol iddynt gynnig mwy am lai: **“Mae cyllidebau wedi cael eu torri ond gofynnir am yr un faint o ddarpariaeth eiriolaeth os nad mwy am lai o arian.”**

Un o ganlyniadau anfwriadol hyn o bosibl yw bod darparwyr eiriolaeth yn mynd i fod yn gyndyn o hyrwyddo eu gwasanaeth oherwydd cyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei wneud o ganlyniad i drefniadau ariannu.

Mae un darparwr wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd o leihau'r gyfradd a delir fesul awr i'r eiriolwr er mwyn dal i ddarparu'r un gwasanaeth i awdurdod lleol sydd wedi lleihau ei gyllid. Nid yw hyn yn ymddangos yn gydnaws â datblygu a chodi safonau a phroffesiynoldeb eiriolaeth.

Mynegwyd pryder difrifol gan aelod o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol: **“Bydd eiriolaeth yn mynd yn bellach i lawr ar yr agenda yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni.”**

5.5 Ffynonellau cyllid

Llywodraeth Cymru i dalu am ddarpariaeth eiriolaeth ers nifer o flynyddoedd. Roedd y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc yn darparu cefnogaeth wedi'i thargedu er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc o deuluoedd sydd dan anfantais, ac roedd y canllawiau a oedd yn ymwneud â'r cyllid yn caniatáu ar gyfer ariannu gwasanaethau eiriolaeth.

Fodd bynnag, o Ebrill 2012 ymlaen bydd cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn cymryd lle ffrwd ariannu Cymorth. Y nod yw gwella cymorth i deuluoedd sydd dan anfantais drwy weithio ar strwythur a dyluniad ymyriadau ataliol a chynnar, a'r broses o'u darparu, yn enwedig i'r rhai hynny sy'n byw mewn tlodi. Nid yw'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol ynglŷn â sut i wario cyllid Teuluoedd yn Gyntaf fel pe baent yn caniatáu i'r gronfa hon gael ei defnyddio i helpu i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

Siaradodd uwch randdeiliaid am golli Cronfa Cymorth:

“Pan ddaeth Cymorth i ben, y cyfan oedd gennym oedd ein cronfa fach ni – a dyna'r cyfan oedd ar gael ac sydd ar gael.”

“Mae partneriaethau integredig a Theuluoedd yn Gyntaf yn gwithio eiriolaeth i gysyniad mwy aneglur ynglŷn â chyllid.”

“Ar hyn o bryd rydym yn cael ein hariannu ar y cyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth. Byddwn yn dod o hyd i ffordd o ariannu drwy Teuluoedd yn Gyntaf. Fydden ni ddim yn rhoi'r gwasanaeth yn y fantol ond ar lefel arall mae'r arian ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi'i gymryd oddi arnom yn gwbl ddirybudd; mae'n rhaid i ni chwilio am £...k. Allwch chi ddim dal i ddisgwyl i wasanaethau lleol ariannu'r gwasanaethau hyn pan nad oes arian ar gael i wneud hynny ...does yna ddim slac ar ôl i'w ddal yn dynn!”

Mae'n amlwg y bydd y ddarpariaeth mewn gwahanol rannau o Gymru'n dal i amrywio tra mae awdurdodau lleol yn cael penderfynu sut i ariannu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

5.6 Trefniadau Comisiynu

Roedd canllawiau cynghori 2009 yn argymhell **'cylch comisiynu tair blynedd sydd yn ddigon hyblyg i'w ymestyn neu ei leihau (os oes angen) i alluogi sefydlogrwydd a pharhad'**.³⁰ Fodd bynnag, mae statws 'cynghorol' y Canllaw wedi arwain at ddulliau gweithredu anghyson mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae pedwar awdurdod wedi derbyn y canllawiau cynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2009 a gwneud contractau hirdymor. Er hyn, mae gan lawer o awdurdodau lleol gontractau tymor byr, ac mae contractau 16 awdurdod lleol yn barod i'w hadnewyddu yn ystod 2012.

Nododd yr awdurdodau lleol nifer o resymau dros gomisiynu contractau tymor byr:

— diffyg cyfeiriad strategol cenedlaethol ac oedi cyn cyhoeddi 'Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc 0-25 yng Nghymru';

— ansicrwydd ynglŷn â newidiadau i gyllid Cymorth, sydd wedi bod yn ariannu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol ers rhai blynyddoedd mewn nifer o awdurdodau lleol.

Mae'n amlwg o gyfarfod awdurdodau lleol bod nifer yn edrych ar hyn o bryd ar ddichonolrwydd comisiynu ar y cyd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yn ystod y deuddeng mis nesaf fel y mae'r contractau'n dod yn barod i'w hadnewyddu. Ar hyn o bryd, o'r 22 Awdurdod Lleol sydd yng Nghymru:

— mae 13 awdurdod yn comisiynu eu gwasanaeth eu hunain;

— mae un awdurdod yn comisiynu ei wasanaeth ar y cyd â'r gwasanaethau iechyd ac addysg;

— mae 8 awdurdod yn comisiynu gwasanaeth ar y cyd.

Mae nifer o heriau i'r awdurdodau hynny sy'n ystyried comisiynu ar y cyd. Un o'r rhain yw cysoni gwahaniaethau yn y ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys y defnydd o wahanol ddarparwyr eiriolaeth: "Rydym yn ystyried comisiynu ar y cyd ond mae dyddiadau'r contractau'n wahanol ac rydym yn defnyddio darparwyr gwahanol." (Rheolwr awdurdod lleol)

Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhyw awgrym ynglŷn â pha awdurdodau lleol y byddai'n hoffi eu gweld yn comisiynu gwasanaethau ar y cyd, mae rheolwyr yr awdurdodau lleol wedi awgrymu ei bod yn bosibl na fydd hyn yn ymarferol bob amser.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd comisiynu ar y cyd yn arwain yn awtomatig at ddarparu gwasanaeth mwy cyson. Yng Ngogledd Cymru, lle mae comisiynu ar y cyd yn digwydd, mae un awdurdod lleol yn darparu model gwell o ddarpariaeth eiriolaeth o gymharu â'i bartneriaid comisiynu drwy ariannu gwasanaeth cyffredinol drwy gontract sy'n cael ei ariannu ar wahân gyda darparwr gwahanol. Mae awdurdodau lleol sy'n rhan o drefniant rhanbarthol wedi dweud bod profiadau plant a phobl ifanc ar lawr gwlad yn yr ardaloedd lleol hynny sy'n cymryd rhan yn wahanol, hyd yn oed o fewn un contract.

Nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r prosesau tendro presennol:

— cyfeiriwyd at ddiffyg manylebau gwasanaeth clir gan gomisiynwyr a diffyg gwybodaeth glir mewn ymatebion i dendr gan ddarparwyr fel meysydd sy'n achosi problemau wrth geisio sicrhau proses dendro deg a thryloyw;

— nid yw comisiynwyr bob amser yn cael y model gwasanaeth yr oeddent yn disgwyl ei gael;

— mae darparwyr yn credu nad yw'r broses o gymharu ymatebion i dendrau'n ystyried y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwahanol fathau o eiriolaeth;

— mae'r broses dendro ei hun a dibyniaeth ar nifer o gontractau tymor byr yn rhoi llawer iawn o bwysau ar adnoddau darparwyr;

— mae diffyg cysondeb o ran pwysu sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ym mhob awdurdod. (gweler trosodd)

³⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009) *Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

5.7 Pwy sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau lleol?

Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd awdurdodau lleol mae'r cyfrifoldeb am gomisiynu a rheoli'r gwasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol wedi'i roi i reolwyr gweithredol neu reolwyr gwasanaeth yr awdurdod lleol, ond mewn saith awdurdod lleol roedd y cyfrifoldeb hwn wedi'i rannu rhwng gwahanol unigolion.

Mae'r tabl isod yn dangos gwahanol deitlau'r staff sy'n gyfrifol am reoli a chomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol mewn awdurdodau lleol. Lle mae awdurdod lleol wedi dweud bod dau aelod gwahanol o'r staff yn gyfrifol am gomisiynu a rheoli'r gwasanaeth mae'r ddau deitl swydd wedi'u cynnwys ac mae cyfanswm o 29 teitl swydd ar draws 22 awdurdod lleol.

Yn gyfrifol am gomisiynu a rheoli eiriolaeth broffesiynol annibynnol mewn awdurdodau lleol

Pennaeth Gwasanaeth	6
Rheolwr Gwasanaeth	4
Rheolwr Gweithredol	3
Cydgysylltydd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc / Rheolwr Comisiynu	3
Rheolwr Datblygu Strategol a Chomisiynu	3
Swyddog Cynllunio / Swyddog Cwynion	3
Rheolwr Polisi a Chynllunio	2
Rheolwr Ardal	1
Rheolwr Grŵp	1
Swyddog Cytundebau	1
Prif Swyddog	1

Er ei bod yn galonogol bod y cyfrifoldeb am gomisiynu a rheoli eiriolaeth broffesiynol annibynnol wedi'i roi i staff ar lefel briodol mewn awdurdod lleol gall fod yn anodd i rywun sy'n gweithio y tu allan i'r awdurdod hwnnw wybod gyda phwy y dylai gysylltu yn y lle cyntaf pe bai problem yn ymwneud â darparu neu gomisiynu'r gwasanaeth hwnnw. Nid oedd yn amlwg pwy oedd yn gyfrifol am eiriolaeth mewn rhai awdurdodau lleol ac roedd hyn yn amlgach fyth lle'r oedd bod yn rhan o bartneriaeth wedi pellhau'r ddarpariaeth oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol.

5.8 Gwahanol fodolau eiriolaeth

Cyfeiriodd awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth at ddau ddull gwahanol o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol:

— **Eiriolaeth sy'n seiliedig ar berthynas**, lle mae angen datblygu perthynas hirdymor rhwng eiriolwr a phlentyn neu berson ifanc, ac sy'n cael ei ystyried fel model mwy costus;

— **Eiriolaeth sy'n seiliedig ar fater penodol**, sy'n darparu ymyriad byrrach a allai fod yn llai costus.

Dyweddodd plant a phobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol a'r darparwyr eiriolaeth eu hunain fod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o fanteisio ar eiriolaeth pan fydd ganddynt berthynas neu pan fyddant yn cael cyfle i ddatblygu perthynas gyda'u heiriolwr. Mewn awdurdod lleol lle'r oedd cynnydd wedi bod yn nifer y plant a'r pobl ifanc a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth dywedodd y rheolwr mai'r rheswm am hyn oedd eu bod wedi newid y model eiriolaeth a oedd yn cael ei gynnal, o ddull yn seiliedig ar fater penodol i ddull yn seiliedig ar berthynas.

Ni chawsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod un model yn fwy llwyddiannus na'r llall o ran canlyniadau. Er hyn, cyfeiriodd darparwyr at heriau yn ymwneud â thendro cystadleuol os nad oedd manyleb gwasanaeth yr awdurdod lleol yn nodi pa fath o fodel yr oedd arno ei angen.

Roedd y rhan fwyaf o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn gofyn i ddarparwyr ymweld ag unedau preswyl yn yr awdurdodau lleol i egluro eu gwasanaethau. Roedd contract un awdurdod lleol yn mynnu y dylai pob plentyn a pherson ifanc a oedd yn byw mewn unedau preswyl gael eiriolwr. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol mewn awdurdod arall yn ceisio hyrwyddo eiriolaeth i blant a phobl ifanc a oedd yn byw mewn gofal preswyl. Gan fod yr hawl statudol i eiriolaeth yn deillio o argymhelliad tribiwnlys Waterhouse ac adolygiad Carlile mae'n bwysig cael deddfwriaeth sy'n gwneud y ddarpariaeth yn ofynnol a hyrwyddo eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n byw oddi cartref mewn lleoliadau preswyl.

Cafwyd nifer o enghreifftiau o eiriolwyr yn ymgysylltu mewn modd cadarnhaol, a dywedodd nifer o'r awdurdodau y byddent yn prynu eiriolaeth arbenigol yn ôl y galw mewn amgylchiadau unigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol. Roedd yr angen i ddarparwyr eiriolaeth recriwtio eiriolwyr â sgiliau arbenigol yn cael ei gydnabod. Un neges gyson oedd bod angen eiriolwyr gwrywaidd ac eiriolwyr iau mewn nifer o awdurdodau. Nododd dau awdurdod bod angen i bob eiriolwr allu siarad Cymraeg. Byddai eiriolwyr a fyddai'n gallu defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu'n fanteisiol iawn hefyd.

Ar hyn o bryd mae'r cyfuniad o wahanol ddarparwyr, gwahanol wasanaethau, gwahanol gyllidebau a gwahanol fodolau comisiynu'n arwain at wasanaeth anghyson iawn drwy Gymru.

Canfu'r adolygiad hefyd fod natur y broses tendro cystadleuol yn y maes gwasanaeth hwn yn cael rhywfaint o effeithiau negyddol. Disgrifiodd un darparwr y sefyllfa hon: *"Mae tendro cystadleuol, oherwydd ei natur, yn atal darparwyr eiriolaeth rhag gweithio gyda'i gilydd mor effeithiol a chyfunol ag y gallem. Mae ein gallu i gydweithio yn dibynnu ar y farchnad rydym yn rhan ohoni."*

Ar hyn o bryd mae darparwyr mewn sefyllfa lle maent yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn rheolaidd am gontractau tymor byr ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar gyfleoedd i gydweithio a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae darparwyr eiriolaeth yn cyfarfod Uned Eiriolaeth Llywodraeth Cymru i drafod y materion hyn ac maent wedi gweithio gyda'i gilydd drwy Cywaith, y corff a sefydlwyd i reoli a darparu Meic. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tensiwn o hyd rhwng cydweithio a chystadlu am dendrau.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

11. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a phendant ar gomisiynu eiriolaeth annibynnol i awdurdodau lleol.

12. Dylid cael un pwynt cyswllt cyson ym mhob awdurdod lleol ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth.

13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu fformiwla ariannu genedlaethol fel sail i'r broses o neilltuo cyfran o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn unol ag angen lleol a nodwyd.

Mynediad at Eiriolaeth

Mae'r Comisiynydd Plant yn argymhell, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau statudol, y dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, a phlant mewn angen ar yr adeg y maent yn ymuno â'r system. Dylai plant a phobl ifanc gael y dewis wedyn o eithrio o'r broses o gael eiriolwr ar ôl i eiriolwr egluro wrthynt beth yw eiriolaeth ac os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn penderfynu nad oes arno eisiau'r gwasanaeth hwn.

Canfu'r adolygiad:

— fod mynediad yn dibynnu i raddau helaeth ar atgyfeiriad gan y plentyn neu'r person ifanc, neu ei weithiwr cymdeithasol, i'r gwasanaeth eiriolaeth;

— fod y rheolwyr yn ffyddiog y byddai eu staff yn gwybod am eiriolaeth, yn ei hyrwyddo ac yn cydnabod y defnydd ohono a'i werth;

— er hyn, nid oedd sampl o weithwyr cymdeithasol yn yr un awdurdod lleol, a ymatebodd i'r adolygiad, yn hyrwyddo eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn gyson.

Dyweddodd yr awdurdodau lleol eu bod yn hyrwyddo gwasanaethau eiriolaeth i staff mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys: wrth helpu staff newydd i gynefino (16), mewn polisiau a gweithdrefnau (18), hyfforddiant mewn swydd (18), y darparwr yn dod i gyfarfodydd tîm (15) yn ogystal â goruchwyliaeth rhwng y rheolwr a'r gweithwyr cymdeithasol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, a chyfeiriwyd hefyd at ddefnyddio deunydd cyhoeddusrwydd.

Er bod rheolwyr awdurdodau lleol wedi dweud eu bod yn darparu sesiynau cynefino a hyfforddiant mewn swydd yn ymwneud ag eiriolaeth, mewn mwy na hanner yr wyth awdurdod lleol yr aethom ni i'w gweld nid oedd y gweithwyr cymdeithasol maes wedi cael y profiad hwn. Ym mhob un o'r wyth awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy roedd staff nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Gan fod trosiant staff yn uchel mewn timau gwaith cymdeithasol mae angen rhaglen dreigl i sicrhau cyswllt â darparwyr eiriolaeth a chyfleoedd hyfforddiant. Dywedodd nifer o weithwyr cymdeithasol nad oeddent yn gwybod fawr ddim am y gwasanaeth eiriolaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn eu hardal.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r Rheolwyr awdurdodau lleol, Swyddogion Adolygu Annibynnol a Swyddogion Cwynion eu bod yn dibynnu ar weithwyr cymdeithasol yn ystod eu cyswllt uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i egluro beth yw eiriolaeth ac i gynnig eiriolaeth iddynt. Roedd y berthynas a'r ymddiriedaeth ar bob lefel rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr eiriolaeth yn ffactor arwyddocaol o ran cyfeirio plant a phobl ifanc at y gwasanaeth. Mae gwasanaeth

eiriolaeth effeithiol yn seiliedig ar waith partneriaeth da, cysylltiadau a chyfathrebu lleol a chysylltiadau gwaith da, sydd i gyd angen amser, ymdrech a buddsoddiad i'w datblygu.

Dangosodd tystiolaeth o gyfweiliadau'r awdurdodau lleol fod angen i bob gweithiwr proffesiynol fod â dealltwriaeth o'r rolau gwahanol sydd gan bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'r dulliau priodol o gyflenwi a darparu gwasanaethau. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o ganlyniadau arfaethedig eiriolaeth er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Ymddengys bod gweithwyr yn gyndyn o gyfeirio pan nad ydynt yn gwybod yn iawn sut mae'r darparwr yn gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc unigol ac, mewn rhai achosion, os nad ydynt yn deall yn iawn beth yw'r broses atgyfeirio:

“Mae eiriolaeth yn teimlo fel gwasanaeth cyfrinachol – Beth yw e?- Pwy yw e? Sut allwn ni gael mynediad ato?” (gweithiwr cymdeithasol)

Dyweddodd gweithiwr cymdeithasol arall y gall pobl fod â chanfyddiadau anghywir neu negyddol o eiriolaeth ac eiriolwyr ac y gallai perthynas waith helpu i chwalu'r rhain:

“Mae angen i'r darparwr gael perthynas gyda'r Adran. Rydym yn gwybod beth yw eiriolaeth ac rydym yn gwybod beth yw ein rôl ni ym mywyd y plentyn ac rydym yn gwneud pethau nad yw plant eisiau i ni eu gwneud a'r canfyddiad weithiau yw bod agenda eiriolwyr yn wahanol i'n hagenda ni, ac yna mae'n mynd yn frwydr ac nid yn berthynas waith gydweithredol. Gall fod yn rhwyst, yn ffactor ataliol, ond os ydym yn eu cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyfathrebu yna gallai hynny chwalu rhwystrau.”

Yn yr awdurdodau lleol lle'r oedd y gweithwyr cymdeithasol yn gallu cyfeirio'n uniongyrchol at eiriolwr enwebedig roedd mwy o hyder i'w weld ac roeddent yn fwy tebygol o gyfeirio neu o leiaf ystyried eiriolaeth. Disgrifiodd un rheolwr yr hyder a oedd ganddi yn ei darparwr eiriolaeth gan ei bod yn adnabod yr eiriolwyr ac yn gwybod am eu sgiliau:

“Rwy’n teimlo bod ganddynt [y darparwr] eiriolwyr cryf dros blant, sy’n wych, ac yn fwyaf arbennig mae ganddynt eiriolwr sy’n gallu darganfod beth mae ar blentyn ei eisiau mewn ffordd fedrus a hynod soffistigedig.”

Mewn awdurdod a oedd â pherthynas waith gadarnhaol hirdymor a llawer o gyswllt gwaith â’i ddarparwr eiriolaeth, roedd dealltwriaeth glir o rolau a chylch gwaith y gwasanaeth ac roedd hyn yn arwain at gyfraddau atgyfeirio uchel a nifer sylweddol yn manteisio ar eiriolaeth.

“Mae yna rwydweithio gyda phobl. Allwch chi ddim rhoi amcan rhy isel o’r rhwydweithio sy’n digwydd ac sy’n cadw pethau’n symud, mae pobl yn adnabod pobl yn y gwahanol asiantaethau, mae yna gysylltiad personol. Mewn cymuned wledig mae a wnelo hyn â pherthynas broffesiynol a sut rydych yn rhwydweithio gyda phobl ac yn gwneud i berthynas weithio. ... rydych yn cyfarfod llawer o’r eiriolwyr, rydych yn gwybod pwy ydyn nhw – rydych wedi eu cyfarfod.”

Mae’n bwysig nodi bod y berthynas hon hefyd yn un lle’r oedd disgwyl i’r eiriolwr herio, ac roedd yn cael ei alluogi i wneud hynny, ac nid oedd tystiolaeth bod y berthynas hon yn un a oedd yn rhoi annibyniaeth y darparwr eiriolaeth yn y fantol. Dywedodd rheolwr gwasanaeth yn yr awdurdod:

“Mae yna densiwn sy’n iach – rydyn ni’n cael ein herio hefyd – mae’n ddiogel i herio.”

Wrth ddatblygu perthynas waith gadarnhaol, roedd y gweithwyr cymdeithasol yn cyfeirio’n aml at bwysigrwydd cael cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwr a chyfluoedd i gael hyfforddiant a’r wybodaeth ddiweddaraf am eiriolaeth, os yw’n bosibl gan y darparwr eu hunain. Roedd angen egluro peirianwaith y gwasanaeth eiriolaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o fanteision eiriolaeth yn y timau gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol hefyd yn ystod y cyfweiliadau personol y byddai hyn yn creu cyfle i adeiladu perthynas gyda’r darparwr:

“Mae’n hollbwysig bod darparwr yn mynd i gyfarfodydd fim. Mae angen i ni ddatblygu perthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a darparwr eiriolaeth.” (Rheolwr Gwasanaethau Plant)

Roedd y darparwr yn cytuno gyda’r farn hon ac roeddent yn bendant nad oedd taflenni a chyhoeddusrwydd yn unig yn arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer sy’n manteisio ar eiriolaeth. Dywedodd un darparwr wrthym fod angen iddynt dreulio amser yn yr awdurdod yn dod i adnabod y staff ac:

“Os nad ydych chi’n hyrwyddo dydych chi ddim yn eu cael nhw i fanteisio ar eiriolaeth.”

Roeddent yn disgrifio sefyllfa gadarnhaol a oedd yn arwain at nifer dda o atgyfeiriadau. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn eu hadnabod, roeddent wedi bod yn ymwneud â hyfforddiant a chyfweiliadau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ac roedd ymrwymiad hirdymor pendant a oedd wedi eu galluogi i wneud y buddsoddiad hwn o ran amser ac arian.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod yn teimlo eu bod wedi datblygu perthynas waith hirdymor aeddfed gyda’r darparwr eiriolaeth a bod hyn wedi eu galluogi i sefydlu eiriolaeth mewn sawl agwedd ar eu rhaglenni hyfforddi a chynefino ar draws eu gwasanaethau plant yn ogystal ag yn eu hymarfer o ddydd i ddydd. Roedd un darparwr wedi paratoi pecyn cymorth lleol pwrpasol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Datblygwyd hwn ar gyfer un awdurdod lleol, gan weithio gyda’r awdurdod hwnnw, ond roedd yn rhywbeth yr oedd arnynt eisiau ei ddatblygu ymhellach a’i addasu ar gyfer pob rhanbarth. Mae’r pecyn cymorth hwn yn cynnwys manylion ynglŷn â sut y gallant wneud atgyfeiriad ac mae’n cynnwys amlinelliad o’r gwasanaeth fel bod yr holl bartion yn deall y meini prawf lleol.

Yn yr awdurdodau lleol hyn roedd eiriolaeth yn gysylltiedig â’r agenda hawliau plant a chyfranogiad ac nid oedd yn gweithredu fel gwasanaeth annibynnol. Roedd eiriolaeth yn cael ei gweld yng nghyd-destun y strategaeth gyfranogi leol ac roedd yn dangos ymrwymiad go iawn i roi’r plentyn yn y canol ac i bwysigrwydd ei lais a’i farn. Roedd eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo drwy’r strwythurau cyfranogi ehangach, fel y fforwm ieuentid. Roedd llawer o awdurdodau’n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal a rhai sy’n gadael gofal gyfarfod mewn grwpiau a rhannu eu barn a’u profiadau:

“Fel unrhyw wasanaeth arall, mae’n esblygu on’d yw e? Dych chi byth yn gorffwys ar eich rhwyfau ac yn dweud rydyn ni wedi gwneud eiriolaeth, mae’n rhywbeth mae’n rhaid i chi ei ystyried wrth ei ddatblygu. Rwy’n credu bod gennym ni wasanaeth eithaf aeddfed – mae cryn dipyn o ddefnydd arno.”

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

14. Rhaid i awdurdodau lleol a darparwr eiriolaeth ddarparu cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o bwrpas eiriolaeth ymhlith yr holl staff sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylai hyn gynnwys datblygu dealltwriaeth o sut i fanteisio ar eiriolaeth a pherthynas waith gyda rheolwyr darparwr eiriolaeth ac eiriolwyr.

6.1 Protocolau a ffactorau sy’n sbarduno mynediad

Yn ystod cyfweiliadau’r awdurdodau lleol disgrifiodd rheolwyr ac ymarferwyr nifer o brotocolau a ffactorau sbarduno a fyddai’n hyrwyddo mynediad at wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu dealltwriaeth o eiriolaeth.

“Mae eiriolaeth bob amser yn cael ei godi a’i drafod yn adolygiadau plant sy’n derbyn gofal. Mae hyn yn rhan o’r gwaith papur.” Dywedodd un rheolwr awdurdod lleol wrthym yn hyderus: ***“Mae wedi’i wau drwy’r gweithlu ac mae nodiadau cymell wedi eu cynnwys.”*** Er hyn, nid oedd sampl o weithwyr cymdeithasol y cyfarfuom â hwy yn yr un awdurdod lleol yn hyrwyddo eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn gyson er gwaetha’r nodiadau cymell yn y broses adolygu.

Canfu’r adolygiad fod:

—Swyddogion Adolygu Annibynnol ar y cyfan yn gweithredu fel rhwyd diogelwch a byddent yn ailedrych ar gyfeiriad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol wrth baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer eu hadolygiadau ond nid oedd y sbardunau hyn bob amser yn golygu y byddai plant a phobl ifanc yn manteisio ar y gwasanaeth;

—systemau hysbysu a phrotocolau wedi cael eu sefydlu mewn rhai ardaloedd pan fydd adolygiadau plant sy’n derbyn gofal yn agosáu a’r darparwr eiriolaeth yn paratoi pecynnau yngl n ag eiriolwyr i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol eu hanfon;

—roedd llawer llai o hyrwyddo systematig ac ysgogwyr i hyrwyddo ac egluro eiriolaeth wrth blant mewn angen.

Er hyn, clywsom am enghraifft gadarnhaol iawn o hyrwyddo a darparu eiriolaeth i blant anabl:

“Mae eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anabledau yn bodoli fel rhywbeth y mae ganddynt hawl iddo, byddant yn cael eu hysbysu’n awtomatig am [enw’r eiriolwr] pan fyddant wedi cyrraedd oedran penodol, gallant ddewis a ydynt am gymryd rhan yn y broses honno ai peidio ond mae yno’n awtomatig, nid yw’n rhywbeth y mae’n rhaid iddyn nhw ofyn amdano nac yn broses y mae’n rhaid i Weithiwr Cymdeithasol ei dechrau.”

Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol:

“Mae gennym ni rôl bwysig iawn [wrth hyrwyddo eiriolaeth]. Dyw eiriolaeth ddim yn golygu llawer i’r rhan fwyaf o bobl ifanc, felly mae angen siarad â nhw fel unigolion i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod bod yna rywun y gallan nhw siarad ag e.”

Dywedodd pob un o’r 22 awdurdod lleol fod ganddynt rywfaint o ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol yr oedd plant a phobl ifanc yn manteisio arni er mwyn cael cefnogaeth. Yn ystod trafodaethau gyda phlant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol, darparwr eiriolaeth a rhanddeiliaid, gwelwyd bod profiadau plant a phobl ifanc o’r modd yr oeddent yn cael eu galluogi i fanteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn amrywio ac amlygwyd nifer o rwystrau. Mae hyn yn dangos bod angen ymgysylltu’n rhagweithiol â phlant a phobl ifanc i sôn am eiriolaeth a sicrhau bod cyn lleied ag sy’n bosibl o rwystrau ar eu ffordd.

6.2 Arweiniad ac ymrwymiad

Mae arweiniad ac ymrwymiad gan uwch reolwyr a rheolwyr llinell mewn awdurdodau lleol yn ffactor pwysig er mwyn sicrhau mynediad at ddarpariaeth eiriolaeth. Roedd perthynas gadarnhaol rhwng awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth ynghyd â sianeli cyfathrebu da yn bwysig er mwyn rhoi hyder i bobl annog plant a phobl ifanc i fanteisio ar eiriolaeth. Mae perthynas gadarnhaol a chyfathrebu da cyn bwysiced ag annibyniaeth o ran mynediad. Cyfeiriodd rheolwyr, ymarferwyr a darparwyr at yr angen am ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb, dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn a darpariaeth leol.

Yn bwysig iawn, nodwyd bod dealltwriaeth ac ymrwymiad corfforaethol i werth a phwrpas eiriolaeth yn chwarae rhan allweddol o ran annog mynediad. Roedd dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i lais y plentyn yn bwysig wrth wneud penderfyniadau a'r angen i'r llais hwnnw gael ei glywed yn rhan ganolog o'r broses o hyrwyddo a sicrhau mynediad at eiriolaeth:

“Mae yna ddiwylliant rheoli cadarnhaol sy'n cefnogi eiriolaeth. Mae'r diwylliant o'r brig yn gefnogol iawn; mae hyn o ganlyniad i'r Pennaeth Gwasanaeth newydd sydd wedi sefydlu diwylliant a naws gefnogol iawn.”

Canfu'r adolygiad fod eiriolaeth yn ffynnu lle'r oedd:

— arweiniad gan uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol i hybu diwylliant sy'n ymwybodol o bwysigrwydd gwrandao ar lais a barn plant a phobl ifanc drwy gydol y cyfnod y maent yn darparu gwasanaethau corfforaethol;

— unigolyn neu dîm ymroddedig yn credu'n gryf mewn eiriolaeth ac wedi gyrru'r agenda yn ei blaen;

— cefnogaeth leol gan reolwyr ac ymarferwyr, sy'n ffactor hollbwysig ac sy'n chwarae rôl yn ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n lleol.

Nodwyd enghreifftiau o ymarfer da, er enghraifft disgrifiodd un awdurdod lleol sut y mae'n cynnwys plant a phobl ifanc yn mhob agwedd ar ddatblygu ac adolygu'r gwasanaeth eiriolaeth. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod pobl ifanc yn ymwneud â'r broses dendro, recriwtio staff a datblygu deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am eiriolaeth.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

15. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol clir i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd yn gymwys yn statudol i gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, yn gallu manteisio ar wasanaeth o'r fath drwy drefniadau ac arferion clir a chyson.

16. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr aelod etholedig, sydd â chyfrifoldeb statudol am y gwasanaethau plant, yn gweithredu fel hyrwyddwr eiriolaeth yn lleol ac yn rhoi arweiniad cryf yn y maes hwn.

17. Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys ym mhob agwedd ar ddatblygu ac adolygu gwasanaethau eiriolaeth.

6.3 Plant a phobl ifanc yn gwneud dewis deallus

Mae safon gyntaf y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant yn nodi:

‘Mae eiriolaeth yn cael ei arwain gan farn a dymuniadau plant a phobl ifanc; ni roddir cymorth i blant a phobl ifanc oni bai eu bod yn dymuno ei gael. Mae'n bwysig iawn bod gan blant a phobl ifanc reolaeth ar y berthynas eiriolaeth.’³¹

Un o elfennau hanfodol eiriolaeth yw bod plant a phobl ifanc yn teimlo ei fod yn wasanaeth iddynt hwy a'u bod yn cael eu helpu i fynegi eu barn a'u dymuniadau eu hunain. Mae hon yn ffordd o weithio a ddylai ddechrau cyn gynted ag y mae rhywun yn dechrau gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc er mwyn ei helpu i ddeall beth yw eiriolaeth, a fyddai'n hoffi cael eiriolaeth a sut i fanteisio arno. Canfu'r adolygiad:

— o'r plant a'r bobl ifanc gymwys a gyfrannodd i'r adolygiad hwn, nid oedd 28% ohonynt erioed wedi clywed am eiriolaeth ac, o ganlyniad, nid oeddent wedi gwneud dewis deallus i gael eiriolaeth;

— yn ôl ymarferwyr a oedd yn hyrwyddo eiriolaeth y rheswm pam nad oedd plant a phobl ifanc yn manteisio ar y cyfle i gael eiriolaeth, yn rhannol, oedd y ffaith nad oedd unrhyw bryder ynglŷn â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu, eu bod yn gwybod bod plant a phobl ifanc yn fodlon ac nad oedd unrhyw broblemau yn ymwneud â'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu neu bod yn well ganddynt siarad gyda rhywun roeddent yn ei adnabod yn barod.

Mewn ardaloedd lle mae'r plant yn cael eu galluogi i glywed am eiriolaeth gan y darparwr, naill ai drwy gyfarfod personol neu drwy gyfarfod grŵp, mae'r nifer sy'n manteisio ar eiriolaeth yn uwch. Mae'r darparwyr yn cydnabod bod y nifer sy'n manteisio ar eiriolaeth ar ei uchaf pan maent yn cael eu galluogi i gyfarfod y plant a'r bobl ifanc eu hunain a sôn wrthynt am eiriolaeth. Er gwaetha'r ffaith fod plant a phobl ifanc yn dweud mai eiriolwyr sydd yn y sefyllfa orau i egluro beth yw eiriolaeth (gweler Pennod 4) mewn llawer o awdurdodau lleol nid oedd darparwyr yn cael cyfle i egluro beth yw eiriolaeth nes bod plentyn wedi cydsynio mewn egwyddor i dderbyn eiriolaeth.

Cyfeiriodd gweithwyr cymdeithasol at anawsterau wrth gyflwyno plant a phobl ifanc i ddarparwyr gan mai dim ond ar ôl i'r plentyn gydsynio y gallai hyn ddigwydd. Gall hyn fod yn gryn rwystr. Mewn un awdurdod lleol roedd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfarfod yr eiriolwyr yn anffurfiol mewn cyfarfod grŵp er mwyn datblygu perthynas. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol wrth dim yr adolygiad am blentyn a oedd wedi gwrthod eiriolaeth pan gynigiwyd y gwasanaeth iddi gan ei gweithiwr cymdeithasol gan nad oedd ganddynt berthynas gadarnhaol. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn credu y byddai'r ferch ifanc hon wedi defnyddio gwasanaeth eiriolaeth pe bai wedi gallu clywed amdano mewn grŵp anffurfiol, difygythiad gan rywun annibynnol.

Mae'n bwysig felly bod cyfleoedd i roi gwybodaeth i blant a phobl ifanc yn cael eu trafod yn rheolaidd gan yr awdurdod lleol a'r darparwr. Roedd rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cael ei hystyried yn bwysig iawn, gan ei fod yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc a bod trafodaethau penodol ynglŷn ag eiriolaeth yn cael eu cynnal.

³¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2003) Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant <http://wales.gov.uk/caec/publications/childrenandyoungpeople/advocacy/advocacystandardscy.pdf?lang=cy>

Mewn awdurdod lleol arall oedd â chyfraddau manteisio uchel roedd enwau plant cymwys yn cael eu hanfon at y darparwr er mwyn iddo allu cyflwyno'i hun. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol:

“Cyn gynted ag y mae plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal ... mae [y darparwr] yn cael ei hysbysu ac mae'n ysgrifennu'n annibynnol at y plentyn yn uniongyrchol. Cedwir y rhestr enwau hon. Hyd yn oed os nad ydynt yn dymuno cael eiriolwr byddant yn cael y cylchlythyr er mwyn iddynt ddod yn ymwybodol o fanteision eiriolaeth.”

“Pan fydd gan blentyn adolygiad bydd yn cael ei gyfeirio at y darparwr.”

Fodd bynnag, roedd awdurdod arall o'r farn fod y dull hwn o weithredu yn groes i'r safonau eiriolaeth ac i arferion cadw cyfrinachedd da:

“Yn ein barn ni, nid yw rhoi manylion cyswllt plentyn neu berson ifanc i eiriolwr yn ymarfer da os nad yw'r plentyn wedi dewis yn ddeallus a oes arno eisiau eiriolwr ai peidio. Byddai'r manylion cyswllt yn cael eu rhoi i'r gweithiwr cymdeithasol i wneud y cyflwyniad ac ni fyddai'n eu rhoi i neb arall oni bai fod y plentyn yn cydsynio.”

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

18. Dylai awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth sefydlu trefniadau gweithredu a phrotocolau priodol fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth er mwyn darparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

6.4 Cyhoeddusrwydd i blant a phobl ifanc

Roedd barn plant a phobl ifanc ynglŷn â'r ddibyniaeth helaeth ar daflenni i hyrwyddo eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn amrywio. Roedd rhai wedi mwynhau bod yn rhan o grwpiau a fu'n cynllunio taflenni a deunydd cyhoeddusrwydd i'w defnyddio'n benodol yn eu hardal hwy ond dywedodd eraill:

“Dyw taflenni ddim yn gweithio.”

“Dydw i ddim yn or-hoff o'r syniad o gael taflen yn unig.”

“Chafodd e ddim (ei egluro wrtha i) mewn gwirionedd, dim ond cael taflen wnes i.”

Roedd y bobl ifanc yn teimlo bod angen diweddarar deunydd cyhoeddusrwydd a bod yn barod i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Facebook.

Dywedodd rhai gweithwyr cymdeithasol fod pob un o'r plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio gyda hwy'n gwybod am eiriolaeth gan fod taflen ar eiriolaeth yn y pecyn i blant sy'n derbyn gofal sy'n cael ei roi i bob plentyn a pherson ifanc pan fyddant yn cael eu rhoi mewn gofal am y tro cyntaf. Mae tystiolaeth a ddarparwyd i Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru mewn gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar gyda phlant sy'n derbyn gofal yn awgrymu nad yw llawer o'r wybodaeth sydd yn y pecynnau hyn yn cael ei darllen a'i hystyried yn ofalus gan y plant a'r bobl ifanc.

Roedd rhai awdurdodau lleol a darparwyr yn rhannu cylchlythyrâu a oedd yn cael eu hanfon yn rheolaidd at bob plentyn a pherson ifanc, ac roedd hwn yn ddull da o rannu storïau cadarnhaol am eiriolaeth a chynyddu ymwybyddiaeth.

Siaradodd darparwyr am y deunyddiau amrywiol yr oeddent yn eu darparu mewn gwahanol ieithoedd a fformatau ar gyfer gwahanol oedran a gwahanol alluoedd. Dywedasant hefyd fod angen buddsoddi adnoddau er mwyn datblygu deunydd hyrwyddo nad yw'n seiliedig ar gyfathrebu ysgrifenedig.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

19. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd gyson ym mhob rhan o Gymru.

6.5 Syniadau pobl ynglŷn ag annibyniaeth

Un o amcanion ac egwyddorion sylfaenol Llywodraeth Cymru yn 'Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc' (2009)³² yw y dylai darparwyr eiriolaeth fod yn fwy annibynnol ar y sefydliadau sy'n comisiynu'r gwasanaeth eiriolaeth:

“Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn credu ac yn ymddiried bod y gwasanaeth eiriolaeth y maent yn cael mynediad iddo yn gwbl annibynnol o'r gwasanaeth y maent eisiau ei atal, ei ddechrau neu ei newid.”

Canfu'r adolygiad fod:

— llawer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol yn dweud yn hyderus bod eu darparwr yn gweithredu mewn modd annibynnol ac agos at blant;

— darparwyr eiriolaeth eu hunain wedi dweud bod annibyniaeth yn un o egwyddorion sylfaenol eu hymarfer a'u bod yn gweithredu mewn modd sy'n canolbwyntio ar blant ac yn cael ei arwain gan blant;

— darparwyr yn gyffredinol fel pe baent yn gallu egluro'n glir ac, yn bwysicach fyth efallai, dangos annibyniaeth.

Rhannwyd enghreifftiau o arferion da gyda'r adolygiad lle mae cynnwys y darparwr eiriolaeth yn rhan hollbwysig o arferion sicrhau ansawdd yr awdurdodau lleol a lle mae'r darparwr yn cael eu croesawu fel cyfaill pwysig ac annibynnol. Ar y llaw arall, rhoddwyd tystiolaeth i ni a oedd yn awgrymu bod dal i herio awdurdod lleol wedi arwain at newid darparwr eiriolaeth, a rhybuddio darparwyr eiriolaeth eu bod yn herio gormod.

³² Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009) *Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Er bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cadarnhau dulliau gweithredu annibynnol eiriolwyr, dywedodd rhai plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol wrthym fod plant a phobl ifanc weithiau, gan fod eiriolaeth yn cael ei weld yn aml fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol, yn amau pa mor annibynnol ydyw mewn gwirionedd. Gofynnodd un person ifanc i'r darparwr:

“Sut gall e fod yn annibynnol pan y'ch chi'n herio'r union bobl sy'n rhoi gwaith i chi? Dyw e ddim yn teimlo'n iawn – dyw e ddim yn swnio'n iawn.”

Mae'r ofnau hyn yn cael eu chwalo pan fydd yr eiriolwr yn dechrau gweithio gyda phlant a phobl ifanc a hwythau'n dechrau gweld canlyniadau cadarnhaol eu cyfarfodydd gyda'r eiriolwr ac yn mwynhau gallu mynegi eu barn â chefnogaeth. Dywedodd un person ifanc sydd wedi defnyddio eiriolaeth yn glir iawn:

“Mae eiriolwyr ar gyfer plant a phobl ifanc unigol YN annibynnol. Efallai fod ganddyn nhw bryderon ariannol, ond maen nhw'n dal i wneud eu gwaith.”

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

20. Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth hybu'r berthynas annibynnol rhwng y broses gomisiynu a darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc unigol.

6.6 Y berthynas rhwng plant a phobl ifanc a darparwyr eiriolaeth

Dyweddod plant a phobl ifanc eu bod yn gallu cael gwell dealltwriaeth o eiriolaeth pan fyddant yn cyfarfod eiriolwyr ac yn clywed am eu gwasanaethau'n uniongyrchol.

Dyweddod plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol fod plentyn ifanc sydd wedi defnyddio eiriolaeth, ac sydd eisoes â pherthynas gyda'r eiriolwr a'r gwasanaeth, yn fwy tebygol o'i ddefnyddio eto:

“O'm profiad i, eiriolaeth yw'r math gorau o gefnogaeth rwy wedi ei gael ers bod mewn gofal. Dyna'r lle cyntaf rwy'n mynd i gael cyngor bron bob amser oherwydd maen nhw'n garedig ac yn gyfeillgar ac maen nhw'n cymryd eu hamser i ddod i'ch adnabod chi.”

“Pe bawn i'n gallu rhoi cyngor i unrhyw blant, byddwn bob amser yn dweud wrthyn nhw am gael eiriolwr, oherwydd oni bai am yr eiriolwr fyddwn i ddim yn cael unrhyw gysylltiad gyda fy nheulu.”

“Mae cael eiriolwr wedi fy helpu i, oherwydd cyn hynny doeddwn i ddim yn gallu siarad gyda neb, ond mae e wedi rhoi hyder i mi ddweud beth bynnag rydw i eisiau ei ddweud nawr.”

Cadarnhawyd hyn gan reolwr gwasanaeth awdurdod lleol:

“Yr hyn rydyn ni wedi ei weld yw bod plentyn neu berson ifanc, ar ôl cael eiriolaeth mewn un achos, yn gweld ei fod yn beth da, ac yn aml iawn yn dod yn ôl nawr ac yn y man i fanteisio arno eto.”

Dyweddod Swyddog Adolygu Annibynnol ei bod yn bwysig, wrth siarad am eiriolaeth broffesiynol annibynnol gyda phlant a phobl ifanc, ei gyflwyno fel gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar bobl er mwyn helpu i leihau rhai o'r rhwystrau. Dyweddod ei bod hi bob amser: **“Yn defnyddio enwau'r bobl – nid y labeli.”**

“Mae angen i'r eiriolwr gael amser i ddatblygu perthynas gyda'r plentyn. Nid cynrychioli'r plentyn mewn adolygiad yw rôl yr eiriolwr; ei rôl yw cynrychioli'r plentyn ym mhob agwedd ar ei fywyd.” (Gweithiwr Cymdeithasol)

Lle mae trosiant gweithwyr cymdeithasol yn uchel mae sefyllfaoedd lle mae eiriolwyr wedi bod yn rym hirdymor a chyson ym mywyd plentyn. Mae hyn wedi digwydd, nid wrth i'r plentyn neu'r person ifanc weithio gyda'r darparwr eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn gyson ond yn hytrach drwy allu cysylltu â'r eiriolwr pan fo angen.

Gall bodolaeth canolfan benodol yn ardal yr awdurdod lleol fod yn gaffaeliad er mwyn hybu'r gwasanaeth, ac mae'n helpu i ddatblygu perthynas â gweithwyr proffesiynol ac â phlant a phobl ifanc. Dyweddod plant a phobl ifanc hefyd eu bod yn gallu uniaethu gyda'r gwasanaeth yn haws; maent yn teimlo bod y gwasanaeth yn fwy parhaol pan fo mewn canolfan leol. Roedd y ganolfan hon yn cael ei defnyddio'n aml i gynnal gweithgareddau a chyfarfodydd grŵp ac roedd y rhain yn cael eu gweld fel ffordd dda i blant a phobl ifanc ddysgu am eiriolaeth. Mae grwpiau'n cynnwys cyfuniad o blant a phobl ifanc sy'n defnyddio eiriolaeth yn rheolaidd a rhai sydd newydd ddechrau ei ddefnyddio. O ganlyniad, roedd plant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol o gyfeirio eu hunain gan fod person ifanc arall wedi sôn wrthynt amdano. Mae rôl a dull gweithredu'r darparwr yn rhan ganolog o'r broses o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a sicrhau canlyniadau.

Er hyn, dyweddod lleiafrif bychan o blant a phobl ifanc nad oedd eiriolwr wedi eu helpu:

“Wnaeth e ddim byd mewn gwirionedd, dim ond gofyn cwestiynau i mi, roedd e fel bod mewn llys ...wales i e unwaith neu ddwy ond doedd yna ddim pwynt cael un.”

Rhannodd plant, pobl ifanc, ymarferwyr a rheolwyr bryder hefyd ynglŷn ag arferion rhai eiriolwyr:

— yn aml iawn, nid oes cyfle i ddewis eiriolwyr ac os nad yw plentyn neu berson ifanc yn gallu cyd-dynnu ag eiriolwr mae'n bosibl na fydd yn gallu cael eiriolwr gwahanol.

— dyweddod rhai pobl ifanc mai dim ond cyn yr adolygiad yr oeddent wedi cyfarfod eu heiriolwr ac nad oeddent wedi gallu cael sgwrs iawn ag ef a pharatoi ar gyfer yr adolygiad statudol pwysig hwn.

Roedd llawer o enghreifftiau o ymgysylltu cadarnhaol gan eiriolwyr, a nododd llawer o awdurdodau y byddent yn prynu eiriolaeth arbenigol untro mewn amgylchiadau unigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Cydnabuwyd yr angen i ddarparwyr eiriolaeth recriwtio eiriolwyr oedd â sgiliau arbenigol. Roedd neges gyson ynghylch yr angen a nodwyd am eiriolwyr gwryw ac eiriolwyr iau mewn nifer o awdurdodau. Mewn dau awdurdod nodwyd yr angen i bob eiriolwr fod yn siaradwyr Cymraeg dwyieithog. Byddai eiriolwyr oedd yn gallu defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu hefyd yn fantais sylweddol.

Rhaid i ddarparwyr eiriolaeth ddal i ddatblygu ffyrdd creadigol o gynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o rôl eiriolwr a sut i gysylltu â gwasanaeth eiriolaeth a hybu dewis o eiriolwyr.

6.7 Eiriolaeth a Chwynion

Mae cysylltiad cryf rhwng eiriolaeth broffesiynol annibynnol a'r broses gwynion ond dylai gael ei gweld fel rhywbeth ehangach na dim ond cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd eisiau gwneud cwyn.

— Cadarnhaodd Swyddogion Cwynion ym mhob un o'r wyth awdurdod lleol a gymerodd ran yn y cyfweiliadau eu bod yn hysbysu plentyn neu berson ifanc sy'n gwneud cwyn ynglŷn â mynediad at eiriolaeth ac fel arfer yn anfon tafflen ato;

— mewn un awdurdod lleol roedd pob cwyn yn cael ei chefnogi gan eiriolwr;

— teimlai rhai Rheolwyr a Swyddogion Cwynion y gallai'r cysylltiad â'r broses gwynion gael ei weld fel elfen negyddol ac fel rhwystr sy'n atal mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

“Mae eiriolaeth weithiau'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n digwydd pan fydd ar berson ifanc eisiau gwneud cwyn ac fel rhywbeth sydd ddim ond yn cael ei gyflwyno iddo pan mae yn y broses gwynion yn barod.”

Fel y dyweddod y swyddog cwynion hwn:

“Dylai gweithwyr cymdeithasol fod yn hybu eiriolaeth gyda'r Gofalwyr Maeth. Er mwyn chwalu diwylliant fod cwynion yn negyddol. Rwy'n gweld cwynion fel rhywbeth cadarnhaol, rydyn ni'n sefydliad mawr, rydyn ni'n gwneud camgymeriadau, gallwn wella, gwneud pethau'n well a bydd y plant a'r bobl ifanc a'r sefydliad yn elwa. Rhaid i ni chwalu'r diwylliant hwn.”

Lleisiwyd safbwynt mwy negyddol:

“Rydyn ni'n cael gormod o gwynion – rydych yn rhy lwyddiannus – mae eiriolaeth yn creu gormod o gwynion.”

Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael ei alluogi i fynegi ei farn yn glir am y gwasanaeth y mae'n ei gael a gall hyn olygu weithiau eu bod yn gwneud cwynion. Mae rhai adbornth a gwneud cwynion yn bwysig ac maent yn hanfodol er mwyn gwerthuso a gwella gwasanaethau o safbwynt strategol a hefyd er budd unigolion.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

21. Rhaid i Swyddogion Cwynion ddal i hysbysu plant a phobl ifanc ynglŷn â sut i wneud cwynion ac i gynnig cefnogaeth eiriolwr annibynnol wrth wneud cwyn.

Arweiniad Strategol

7.1 Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr arweiniad strategol cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, a benodwyd gan Llywodraeth Cymru, a'r Uned Eiriolaeth, sydd wedi'i lleoli yn Llywodraeth Cymru, yn darparu'r arweiniad hwn ac mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am gyhoeddi canllawiau statudol ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth ac yn pennu'r safonau cenedlaethol.

Ym Mawrth 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru:

"Sefydlwyd yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad o fewn yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac mae bellach wedi'i staffio'n llawn gyda phennaeth cangen, rheolwr cangen a gweinyddwr cangen yn eu swyddi ers mis Ionawr 2009. Ei phrif swyddogaethau yw –

— *hyrwyddo eiriolaeth ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion*

— *hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o weithredu Model ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru*

— *ystyried opsiynau ar gyfer datblygu a chomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth a Chyngor Cymru Gyfan i bob plentyn a pherson ifanc*

— *sefydlu Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol*

— *cyflwyno adroddiad ar safonau eiriolaeth a chanlyniadau ledled Cymru*

— *cefnogi Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i weithredu'r trefniant newydd yn lleol neu/ac yn rhanbarthol³³*

³³ Datganiad ysgrifenedig gan y Cabinet ar 19 o Fawrth 2009: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2009/cyp/?skip=1&lang=cy>

Ym Mehefin 2009, cyhoeddwyd aelodaeth y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol gan wireddu'r addewid a wnaethpwyd ar 13 Mawrth 2008.³⁴

“Mae’r Llywodraeth yn bwriadu datblygu Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaeth Eirioli yng Nghymru yn y Dyfodol. Bydd y fframwaith newydd yn cael ei gyflwyno dros y ddwy flynedd nesaf. Wrth graidd y fframwaith newydd bydd Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Bydd y Bwrdd yn cadw golwg annibynnol, strategol ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, a bydd yn cyflwyno argymhellion i’r Cynulliad Cenedlaethol ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd gan y Bwrdd rôl allweddol yn cynghori ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau eirioli, yn ogystal â hyrwyddo arfer gorau a nodi a datblygu’r sylfaen dystiolaeth. Yn allweddol, bydd y Bwrdd hefyd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar y trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau eirioli lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a bydd yn rhoi barn ar drefniadau’r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc statudol i gomisiynu a sicrhau darpariaeth o wasanaethau eirioli arbenigol integredig. Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried y fframwaith statudol presennol ac yn cynghori a ddylid ei ddiwygio er mwyn ein galluogi i barhau i ddatblygu gwasanaethau eirioli.”

Mae Canllaw Cynghori Llywodraeth Cymru wedi bod ym mediant yr awdurdodau lleol a’r darparwyr er 2009.³⁵ Daeth y cynnod ymgynghori ar ddogfen Llywodraeth Cymru, ‘Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl 0-25 yng Nghymru’, i ben yn Ebrill 2011. Nid yw’r canllawiau statudol terfynol wedi cael eu cyhoeddi eto.

Mae’r ddogfen ymgynghori’n cyfeirio at gynlluniau Llywodraeth Cymru i ailedrych ar y Safonau Cenedlaethol a disgwylir y bydd fframwaith safonau a chanlyniadau’n cael ei gyhoeddi fel rhan o’r canllawiau terfynol.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

22: Bydd Comisiynydd Plant Cymru’n ymrwymo i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru yng nghydestun darparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant sy’n derbyn gofal, rhai sy’n gadael gofal a phlant mewn angen mewn adran benodol o’i Adroddiad Blynyddol. Dylai’r gwaith hwn fod wedi’i seilio’n uniongyrchol ar farn a phrofiadau plant a phobl ifanc.

³⁴ Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, 13 Mawrth 2008, gan Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eirioli i Blant yng Nghymru <http://new.wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2008/nsffuture/?skip=1&lang=cy>

³⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2009) *Canllaw i’r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

7.2 Canllawiau Statudol

Dyweddodd pob un o’r rhai a holwyd fod darparu canllawiau statudol yn hollbwysig er mwyn rhoi arweiniad strategol clir a bod hynny’n helpu i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwasanaeth. Mae angen i ganllawiau statudol fod yn drylwyr, yn ymarferol ac yn hawdd eu gorfodi. Mae newid llywodraeth ac ad-drefnu mewnol wedi’u henwi fel rhesymau dros yr oedi cyn cyhoeddi’r canllawiau statudol a’r safonau.

Cyfeiriodd rhai awdurdodau’n uniongyrchol at y canllawiau cynghori pan holwyd hwy ynglŷn ag eiriolaeth, ond nid oedd awdurdodau eraill wedi bod yn defnyddio’r ddogfen hon fel dogfen weithio a dywedasant eu bod wedi bod yn aros am y canllawiau statudol. Dywedodd uwch reolwr awdurdod lleol eu bod wedi bod yn aros ers tair blynedd am y canllawiau, ac oherwydd nad oes fframwaith disgwyliaid pendant nad oedd modd iddynt herio arferion neu ganlyniadau yn lleol. Disgrifiodd swyddog awdurdod lleol arall yr anawsterau y mae’r oedi wedi’i achosi iddynt hwy:

“Nid ydym wedi cael canllawiau gan y Llywodraeth eto ar y gwasanaeth eiriolaeth arfaethedig newydd; roeddem yn disgwyl y wybodaeth yn llawer cynharach er mwyn i ni wybod sut i symud ymlaen â thendr newydd mewn da bryd.”

Ychwanegodd darparwr hefyd fod awdurdod lleol yr oedd ganddo gontract gydag ef wedi dweud yn glir wrtho ei fod yn darparu’r lefel sylfaenol o eiriolaeth ac na fyddai hynny’n newid nes y byddai Llywodraeth Cymru’n dweud bod yn rhaid iddo newid.

Ymateb swyddog o’r Uned Eiriolaeth oedd:

“Cyhoeddwyd y canllawiau cynghori yn 2009 ac mae tua 50% (o’r comisiynwyr) wedi derbyn y cyngor hwnnw. Mae eraill wedi bod yn bodloni’r rhwymedigaethau statudol ond yn aros nes bydd canllawiau wedi’u cyhoeddi cyn comisiynu gwasanaethau.”

Cadarnhaodd un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru:

“Y peth pwysicaf un yw ein bod yn eu cael yn iawn (y canllawiau statudol) ac mae llawer o newidiadau wedi cael eu gwneud yn ystod y misoedd diwethaf. Y flaenoriaeth yw cael y canllawiau’n iawn, yn hytrach na chael dyddiad penodol ar gyfer eu cyhoeddi.”

Wrth sôn am y canllawiau statudol dywedodd un aelod o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol:

“Mae gennym syniadau petrus am fathau newydd o gonsortia i ysgwyddo cyfrifoldeb mewn gwahanol feysydd. Mae’r rhain (y canllawiau statudol) wedi’u rhoi o’r neilltu am ychydig oherwydd diwygiadau llywodraeth leol. Mae materion gwleidyddol ehangach wedi arwain at oedi yn y broses.”

Siaradodd nifer o’r ymatebwyr am yr angen i droi’r canllawiau a’r safonau’n rhywbeth y gallai pobl ifanc ei ddeall. Rhannodd un o’r darparwyr y buom yn siarad â hwy rai o’i safbwyntiau ynglŷn â’r canllawiau statudol:

“Gresyn bod y canllawiau wedi cymryd cymaint o amser. Mae’n dda cael safonau sylfaenol cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth, maent yn ganllaw go iawn i eiriolwyr a gweithwyr cymdeithasol ac yn rhoi eiriolaeth yn ei chyddestun. Mae arnom angen dogfen i bobl ifanc sydd yn nodi beth y mae gennych hawl iddo (ar sail y safonau), beth y gallwch ei ddisgwyl a sut y gallwch ei gael ... lle bynnag rydych chi’n byw yng Nghymru ... os yw’n statudol dyma beth rydych yn ei gael.”

Mae’r sefyllfa bresennol gyda’r canllawiau wedi arwain at ddryswch ac ansicrwydd. Mae rhai comisiynwyr gwasanaethau’n teimlo’n rhwystredig oherwydd diffyg canllawiau statudol gan y Llywodraeth tra mae eraill fel pe baent yn defnyddio’r canllawiau cynghori fel esgus i beidio â datblygu rhagor ar eu gwasanaeth.

Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai darparwyr yn teimlo bod y diffyg canllawiau fel ‘llen fwg’, a bod cyllid yn cael ei ddal yn ôl, a hynny’n golygu eu bod yn methu â darparu gwasanaeth cynhwysfawr, tra mae eraill yn gwneud eu

gorau glas ond yn teimlo'n amlwg ac yn agored iawn i feirniadaeth.

Gwelwyd bod y canllawiau cynghori'n uchelgeisio ond yn anymarferol, ac nid ydynt wedi creu sefyllfa lle mae'r awdurdodau lleol i gyd yn ceisio gweithredu'r model ym mhob rhan o Gymru. Mae diffyg canllawiau statudol cenedlaethol yn peri anhawster i bawb sydd â rhan allweddol i'w chwarae ym maes eiriolaeth, gan gynnwys y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a'r Uned Eiriolaeth.

Mae'r Comisiynydd Plant eisoes wedi rhoi tystiolaeth am eiriolaeth i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddau achlysur - yn 2008 ac yn 2010 - ac mae nifer o'r rhai a ymatebodd i'r adolygiad hwn wedi rhoi tystiolaeth iddo hefyd. Roedd y Comisiynydd Plant yn croesawu nifer o'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Pwyllgor gan gynnwys yr angen am arweiniad cenedlaethol a strategol clir yn ogystal â chanllawiau a phrosesau arolygu a fyddai'n arwain at wasanaeth mwy cyson ac atebol. Er hyn, mae'r pryderon hyn wedi dod i'r wyneb eto ar ôl cynnal yr adolygiad hwn. Ymddengys nad oes llawer o arweiniad strategol cenedlaethol wedi'i weld yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mae hyn wedi arwain at ddiffyg hyder ymhlith y rhai sy'n comisiynu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.

Beth bynnag yw'r rhesymau hanesyddol dros yr oedi cyn cyhoeddi canllawiau statudol, rhaid mynd ati'n ddi-oed i gyhoeddi safonau a fframwaith canlyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

Mae cyhoeddi canllawiau statudol, safonau a fframwaith canlyniadau i hybu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn hollbwysig er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Dylai'r gwaith fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylid darparu canllawiau ar fanylebau gwasanaeth, modelau comisiynu, ffynonellau cyllid, hyfforddiant a gofynion hyrwyddo. Byddai comisiynwyr a darparwyr yn falch o weld canllawiau'n cael eu cyhoeddi'n ddi-oed fel bod eu cyfrifoldebau yng nghyswllt darparu eiriolaeth annibynnol statudol yn glir ynghyd â'r gwahanol fathau o blant sydd â hawl i gael y gwasanaeth.

ARGYMHELLIAD ALLWEDDOL:

23. Fel mater o frys, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol, safonau a fframwaith canlyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn ddi-oed.

7.3 Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol

O ran rôl y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol, roedd y dystiolaeth gan ei Gadeirydd a chan yr aelodau ar gyfer yr adolygiad hwn yn gadarn, yn agored ac yn onest.

Dywedwyd wrth ddim yr adolygiad bod:

— y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Uned Eiriolaeth wedi arwain at rywfaint o ddryswch ar y dechrau ynglŷn â'i rôl a'i swyddogaethau;

— y cylch gwaith wedi dod yn gliriach ar ôl penodi'r Cadeirydd yn ystod ail flwyddyn y Bwrdd;

— cryn dipyn o rwystredigaeth i'w theimlo gan nad yw'r Bwrdd wedi gallu cyflawni'r briif a roddwyd iddo yng nghylch gorchwyl y Bwrdd;

— yr aelodau'n sôn am berthynas waith gamweithredol a phryder nad oedd digon o gyfarwyddyd yn cael ei roi;

— proffil isel y Bwrdd hefyd yn achosi rhywfaint o rwystredigaeth;

— cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru i fod i gael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ond cyfarfodydd 'ad hoc' sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn awgrymu bod sefydlu Meic yn cael ei weld fel un o brif lwyddiannau'r Bwrdd a'r Uned Eiriolaeth, ond roedd hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth sydd wedi peri i'r Bwrdd beidio â rhoi cymaint o sylw i'w gyfrifoldebau eraill:

“Mae'r Bwrdd yn bodoli ers 2 flynedd erbyn hyn a dim ond nawr rydyn ni'n edrych ar sefyllfaoedd gweithredol go iawn (gan gynnwys) ymarfer mapio.”

Mae'r Bwrdd ei hun yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Clywodd fîm yr adolygiad fod:

— cyfraniad yr aelodau rhwng cyfarfodydd yn annigonol er mwyn cadw'r momentwm;

— agendâu'r cyfarfodydd yn uchelgeisio;

— y broses o wneud penderfyniadau'n wael yn ystod y flwyddyn gyntaf ond wedi gwella ar ôl i'r Cadeirydd presennol gael ei benodi;

— sgiliau a phrofiad rhai aelodau'n annigonol o safbwynt cyflawni gofynion y rôl.

Gwnaethpwyd llawer o sylwadau ynglŷn â chapasiti'r Bwrdd a'r pwysau a roddwyd arno:

“Mae llawer yn cael ei adael i (Gadeirydd) y Bwrdd ac mae gan aelodau broblemau capasiti ac nid oes digon o gefnogaeth gan y rhai sydd wedi comisiynu'r rôl. Mae hyn yn annerbyniol.”

“Mae'n debyg na fydddech chi'n gallu edrych yn ôl ar y cofnodion a gweld tystiolaeth o wneud penderfyniadau clir ... Nid oedd llawer o bwyslais yn cael ei roi ar gofnodion.”

“Dyw e ddim yn gwneud pethau drwg ond dyw e ddim yn cyflawni llawer ychwaith. Rwy'n teimlo'n chwithig.”

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r berthynas waith rhwng yr Uned Eiriolaeth a'r Bwrdd wedi bod mor effeithiol bob amser ag y gallai fod. Mae yna deimlad bod staff yr Uned Eiriolaeth wedi cael eu dal rhwng dwy set o gyfrifoldebau. Yn gyntaf, fel swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n atebol i Weinidogion, ac yn ail fel swyddogion sy'n atebol i'r Bwrdd.

Nid oes digon o eglurder ynglŷn â phwy sy'n arwain beth, a theimlai rhai aelodau bod eu rôl hwy fel bwrdd annibynnol yn cael ei thanseilio neu ei rhoi yn y fantol. Dywedodd un person ifanc ar y Bwrdd: “Mae'r Bwrdd yn trio gwneud pethau i blesio pobl. Os ydych chi'n annibynnol mi ddylech chi wneud beth bynnag rydych chi eisio ei wneud.” Ychwanegodd aelod ifanc arall o'r Bwrdd: “Doeddwn i ddim wedi meddwl am hynny (annibyniaeth) tan rhan, mae'r Uned a'r Bwrdd yn teimlo fel pe baent yn rhan o'r un peth.”

Rhan pobl ifanc yn y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol

— Roedd yr Aelodau'n falch bod pobl ifanc wedi cael eu cynnwys fel aelodau o'r Bwrdd o'r dechrau;

— nodwyd bod arferion gweithio'r Bwrdd wedi cael eu pennu er mwyn iddo weithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc.

Mae'n amlwg o wrando ar farn yr aelodau bod llawer o bwyntiau cadarnhaol yn deillio o'r dull hwn o weithio. Fodd bynnag, crynhodd un aelod farn nifer o'r aelodau a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn (gan gynnwys yr aelodau ifanc):

“Mae cadeirio da yn sicrhau bod pawb yn gallu cyfrannu. Fodd bynnag, mae'r aelodau sy'n oedolion yn tueddu i gymryd drosodd. Mae'r aelodau ifanc yn fwy na 'sioe' ond dydyn nhw ddim yn gallu cyfrannu cymaint â'r oedolion ... mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau'n cael eu gwneud gan yr oedolion ac mae'r aelodau iau'n cytuno.”

Sut mae comisiynwyr a darparwyr yn gweld y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a'i rôl

Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr yn gwybod am y Bwrdd ond nid oeddent yn gwybod beth roedd yn ei wneud yn ei gyfarfodydd. Roedd gan gomisiynwyr yr awdurdodau lleol lai fyth o ddealltwriaeth o rôl y Bwrdd. Dywedodd un ymatebydd o awdurdod lleol, a oedd newydd gael llythyr gan y Bwrdd ynglŷn â'i ymarferiad mapio, nad oeddent yn ymwybodol o rôl a chylch gorchwyl y Bwrdd:

“Rwy'n siomedig iawn â'r Bwrdd. Dydw i ddim yn si r beth mae'n ei wneud a dyw e ddim wedi cyflawni disgwyliadau ... Mae'r cyfathrebu'n wael iawn.”

“Maen nhw'n ymddangos yn bell iawn.”

“Erioed wedi clywed amdany'n nhw ... Ydyn nhw'n cynnig gwerth am arian?”

“Fe gawson ni lythyr gan y Bwrdd ddoe. Hwn yw'r un cyntaf rydyn ni wedi'i gael. Dyw e ddim wedi cael ei gynllunio'n dda iawn. Dim logo ac ati. Mae'n gofyn i ni gadarnhau eu harchwiliad o wasanaethau yn ein hardal.”

Doedd e ddim wedi cael ei ysgrifennu'n dda iawn. Does gen i ddim syniad sut cawson nhw wybodaeth yn y lle cyntaf. Nid ni wnaeth ddarparu'r wybodaeth iddyn nhw."

Roedd sylwadau eraill o safbwynt awdurdodau lleol yn dod i'r casgliad fod problemau yn ymwneud â'r berthynas gyda'r Bwrdd neu nad oedd perthynas yn bodoli o gwbl:

"Mae diffyg cyfeiriad cenedlaethol yn achosi rhwystredigaeth, o safbwynt awdurdod lleol. Rydym wedi bod yn disgwyl ers tair blynedd a does yna ddim fframwaith cenedlaethol eto ... Sut allwch chi gael Bwrdd heb fframwaith cenedlaethol?.. Dylai'r Bwrdd gael proffil uwch ond heb safonau does ganddo ddim grym."

Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweld y bwrdd eiriolaeth annibynnol cenedlaethol a'i rôl

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Comisiynydd Plant fod y Bwrdd wedi gwneud llawer o gynnydd ond bod rhagor o waith i'w wneud eto. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y Bwrdd wedi llwyddo i gynnwys plant a phobl ifanc yn ei waith, bod ganddo rôl annibynnol a bod y: **"cylch gorchwyl yn bodoli er mwyn hwyluso hyn."**

Roedd uwch swyddog yn Llywodraeth Cymru'n bendant bod y Bwrdd: **"wedi cyflawni llawer o bethau. Y llinell gymorth ... egluro (a rhoi cyngor ar) safonau a chanllawiau."**

Eglurwyd hefyd bod y Bwrdd yn ceisio cael darlun clir o'r ddarpariaeth eiriolaeth mewn gwahanol rannau o Gymru ar hyn o bryd drwy ymarferiad mapio awdurdodau lleol, ei fod yn datblygu dull gweithredu mwy strategol ac y bydd cysylltiad rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog yn rhan reolaidd o'i strwythur yn y dyfodol.

Mae'r Comisiynydd Plant yn gobeithio bod y dystiolaeth sydd yn yr adolygiad hwn a'r casgliadau sydd ynddo yn dynodi diwedd cyfnod o ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth a dechrau cyfnod newydd.

Rhaid nodi bod llawer iawn o gyfarfodydd cynnar y Bwrdd yn ymwneud â datblygu Meic, er bod hyn yn cael ei weld yn bennaf fel datblygiad pwysig gan Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod y Bwrdd wedi anfon un nodyn cynghori i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â cholli grant i ddarparu'r eiriolaeth ar gyfer plant ar eu pen

eu hunain yn ceisio lloches, a bod hynny wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd nad yw'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol wedi cyflawni ei amcanion ac nad yw wedi bod yn darparu arweiniad strategol cenedlaethol. Mae Comisiynydd Plant Cymru'n rhannu'r siom a fynegwyd gan rai aelodau o'r bwrdd ynglŷn â'r cynnydd araf sydd wedi cael ei wneud yng nghyswllt eu cylch gorchwyl. Mynegodd rhanddeiliaid eraill yng Nghymru hefyd siom a diffyg eglurder ynglŷn â rôl ac effaith y Bwrdd:

"Rydym yn pwysu arnynt am arweiniad. Nid oes cylch gorchwyl pendant a dylent fod yn arwain y gwaith o ddarparu'r model a safoni gwasanaethau, ond nid yw hyn yn digwydd."

Er ei bod yn ymddangos bod mwy o frys i'w weld yn ddiweddar, mae'r adolygiad yn cytuno â chasgliad un o'i aelodau wrth drafod ei gylch gorchwyl llawn:

"Mae'r Bwrdd yn bell o allu mynd i'r afael ag unrhyw rai o'r materion hynny a dyna ran o'r rheswm dros ei fodolaeth."

Mae'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol wedi gwneud cyfraniad pwysig ond mae canfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu nad oes unrhyw ddiben parhau ag ef yn ei ffurf bresennol, gan fod cyn lleied o hyder ynddo. Mewn sawl ffordd mae'r ymdrech sydd ei hangen er mwyn ei gynnal a sicrhau ei fod yn cyrraedd safon dderbyniol yn fwy na'r manteision o'i gael.

Mae'r Comisiynydd Plant yn cydnabod y bydd hyn yn siom fawr i'r Bwrdd, ond argymhelliaid yr adolygiad yw y dylid cydnabod cyfraniad y Cadeirydd a'r aelodau a gofyn i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r Bwrdd ar unwaith.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

24. Dylai Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ar unwaith.

25. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefniadau atebolrwydd priodol a chadarn yng nghyd-destun eiriolaeth o fewn y Llywodraeth.

7.4 Yr uned datblygu eiriolaeth a pherfformiad

Mae bron i dair blynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r Uned Eiriolaeth. Rhwng 2009 a 2011 roedd gan yr Uned dri gweithiwr yn ymwneud yn benodol ag eiriolaeth. Mae'r dystiolaeth a roddwyd i'r adolygiad hwn wedi dangos bod swyddogaethau'r Uned Eiriolaeth bellach yn rhan o gangen ehangach o swyddogion sydd wedi'i lleoli yn Llywodraeth Cymru. Nid oes Uned Eiriolaeth ar wahân yn bodoli ar hyn o bryd er bod y rhai sydd yn y gangen yn deall ei swyddogaethau. Er bod rhai manteision yn gysylltiedig â gwneud eiriolaeth yn rhan o dîm sy'n edrych ar faterion polisi ehangach mae colli uned eiriolaeth bwrpasol yn codi amheuaeth ynglŷn â gallu swyddogion i ddatblygu ffocws cenedlaethol ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth yn effeithiol.

Mae sefydlu a datblygu Meic yn sicr wedi bod yn bluen yn het yr Uned Eiriolaeth ac mae'n ddatblygiad pwysig ac arloesol. Mae'r Uned Eiriolaeth wedi arwain a chwarae rhan weithredol iawn yn y broses o sefydlu Meic ac mae i'w chanmol am hynny.

Er hyn, mae'n ymddangos bod gwaith arall wedi dioddef ar draul cyflawni'r nod hwn. Mae'n amlwg o dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn nad oes digon o gefnogaeth i gomisiynwyr eiriolaeth lleol na rhanbarthol nac i ddarparwyr gwasanaethau, a dylai hynny fod yn rhan o rôl yr Uned Eiriolaeth. Yn yr un modd, ymddengys nad oes llawer o waith wedi'i wneud yng nghyswllt adrodd ynglŷn â safonau a'u monitro. Mae'n amlwg hefyd bod dealltwriaeth o eiriolaeth yn gyffredinol â dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng eiriolaeth gyffredinol ac eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn amrywio'n fawr o hyd ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion mewn gwahanol rannau o Gymru.

Cadarnhaodd y cyfweiliadau manwl a gynhaliwyd gydag wyth awdurdod lleol nad oedd yr un ohonynt wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Uned Eiriolaeth nac wedi cael unrhyw gefnogaeth neu gyngor ganddi. Nid oedd yr un o'r darparwyr yn teimlo bod yr Uned Eiriolaeth yn ei gefnogi ac yn cysylltu ag ef. Nid oedd comisiynwyr a darparwyr yn glir iawn ychwaith ynglŷn â rôl bresennol na rôl flaenorol yr Uned Eiriolaeth. Mae diffyg perthynas waith dda yn lleihau'r gallu i rannu gwybodaeth ac yn tansilio gallu'r Uned Eiriolaeth i gael ei chydnabod fel asiant arweiniol strategol. Roedd llawer o'r Rheolwyr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn dibynnu'n bennaf ar y

darparwyr eiriolaeth eu hunain i roi arweiniad iddynt ynglŷn â sut y dylai gwasanaethau gael eu datblygu. Y darparwyr oedd y rhai a oedd yn cael eu gweld gan yr awdurdodau lleol fel y rhai a oedd yn meddu ar yr arbenigedd. Er na ellir gwadu profiad helaeth, didwylledd a phrofiad ymarferol y darparwyr eiriolaeth nid ydynt mewn sefyllfa i gyflawni'r rôl hon ar gyfer Cymru gyfan.

Roedd y darparwyr eiriolaeth a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn:

— yn gwybod am yr Uned Eiriolaeth oherwydd eu bod yn mynd i'r Grŵp Darparwyr Eiriolaeth sy'n cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru;

— yn teimlo nad oedd yr Uned Eiriolaeth yn rhoi arweiniad strategol clir a chadarn;

— yn nodi bod yr Uned Eiriolaeth mewn sefyllfa dda i allu casglu a monitro ystadegau yn ymwneud â darparu eiriolaeth. Byddai hyn wedi ei rhoi mewn sefyllfa gref i ddatblygu polisi a rhoi cyngor ar gomisiynu a'r arferion gorau.

Dywedodd un darparwr:

"Os oes arnom eisiau bwydo gwybodaeth i fyny i lefel strategol rydym yn gwneud hynny drwy Plant yng Nghymru. Byddem yn mynd at Plant yng Nghymru neu at Gomisiynydd Plant Cymru i gael gwybodaeth – ni fyddem yn meddwl mynd at yr Uned (Eiriolaeth)."

"Rydym yn cael llai o gysylltiad â'r Uned (Eiriolaeth) nag yr oeddem yn ei gael â'r gweision sifil a oedd yno cyn i'r Uned (Eiriolaeth) gael ei sefydlu. Does yna ddim trefniadau er mwyn rhannu gwybodaeth."

Dywedodd un darparwr yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

"Mae pwynt 2.7 yn y Canllaw i'r Model...(Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009) yn dweud y 'bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu offer cyflenwol (rhad ac am ddim) i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc er mwyn cynorthwyo comisiynu ar y cyd effeithiol, uno cyllidebau ...' Byddai hon yn ymddangos yn un o rolau hanfodol yr Uned Eiriolaeth – nad yw wedi ei chyflawni eto."

Dywedodd hefyd:

“Mae rôl a swyddogaeth yr Uned Eiriolaeth wedi newid ac mae’n wahanol iawn i’r weledigaeth wreiddiol a amlinellwyd yn Datgan Pryderon ac a drafodwyd yng Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ar Eiriolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ddiweddar ysgrifennu polisiau a chefnogi’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol oedd ei rôl ond erbyn hyn mae wedi cael ei hamsugno i mewn i swyddogaethau eraill y llywodraeth.”

Yn ogystal â mynegi siom nad oedd swyddogaethau addawedig yr Uned Eiriolaeth wedi cael eu cyflawni, mynegodd darparwr arall ddryswch ynglŷn â statws presennol yr Uned Eiriolaeth ar ôl cael ei hysbysu’n anffurfiol gan Swyddog nad oedd yr Uned yn bodoli mwyach. Nid oes cyhoeddiad ffurfiol wedi’i wneud ac ni chafwyd unrhyw ddisgrifiad o’r newid o uned eiriolaeth bwrsol i strwythur newydd. Dywedodd un Cyfarwyddwr gwasanaeth:

“Mae hyn yn peri dryswch i mi. Dydw i ddim yn gwybod beth sy’n digwydd. Dim cyhoeddiad. Dim hysbysiad wedi dod i law.”

Cadarnhaodd arolygiaethau hefyd nad oeddent wedi cyfarfod yr Uned Eiriolaeth na’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol:

“Ddim yn ffurfiol. Dydw i erioed wedi eu cyfarfod nhw. Dydy hynny ddim yn ymddangos yn iawn. Gallent fod wedi cael perthynas waith fywiog gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o bosibl.”

Nid oedd gan gomisiynwyr gwasanaethau lawer o bethau da i’w dweud am waith yr Uned Eiriolaeth:

“Dim cysylltiad ffurfiol gyda’r Uned (Eiriolaeth). Does yna ddim fframwaith disgwyliadau felly sut y byddent yn gallu ei herio? Dylai’r Uned fod yn sefydlu’r fframwaith.”

Dywedodd un o Swyddogion yr Uned Eiriolaeth:

“Cafodd yr Uned (Eiriolaeth) ei sefydlu i ddechrau fel Uned Eiriolaeth annibynnol yn 2007, erbyn hyn mae’n rhan o adran sy’n ymwneud â chyfranogi ac, o fis Mai eleni ymlaen, a fydd hefyd yn cynnwys rhoi grym i bobl ifanc, ac mae bellach yn ymwneud â 10 maes polisi ... Nid yw’n Uned mwyach, mae’n gangen â gwahanol feysydd polisi.”

Dywedwyd wrth ddim yr adolygiad bod wyth aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn y gangen a oedd yn ymdrin ag eiriolaeth, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Draig Ffyni, cyfranogiad, cyllidebu ar gyfer plant, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), y Mesur Plant, gwaith y Pedair Gwlad, delweddau cadarnhaol a llais disgyblion. Ar un adeg roedd gan yr Uned Eiriolaeth dri pherson a oedd yn canolbwyntio’n llwyr ar eiriolaeth:

“Does yna neb yn gweithio ar eiriolaeth yn unig erbyn hyn. Does yna ddim digon o gapasiti i gefnogi’r gwaith hwn.”

Fodd bynnag, mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag a yw’r Uned Eiriolaeth wedi cyflawni ei chylch gorchwyl, dywedodd un o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru:

“Rydym wedi rhoi llawer o ymdrech yn y cyswllt yna. Wedi cytuno ar adnoddau ychwanegol i’r agenda hawliau.”

Crynhodd un aelod o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol y safbwynt a fynegwyd gan aelodau eraill mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut yr oedd y Bwrdd yn cyfrannu tuag at raglen waith flynyddol yr Uned Eiriolaeth:

“Dim mewnbwn. Mae gan yr Uned (Eiriolaeth) fwy o gyfrifoldebau erbyn hyn a dyma eu hesgus yn ogystal â newidiadau personél. Ni ddylem ni fod yn ffurfio cynllun gwaith yr Uned (Eiriolaeth) ond dylent ddarparu adnodd priodol er mwyn i ni allu mynnu mewn modd priodol bod yr Uned (Eiriolaeth) yn cyflawni. Mae yna ddiffyg proffesiynoldeb.”

Eglurodd un aelod o’r Uned Eiriolaeth:

“Does yna ddim gwrthdaro rhwng buddiannau’r Uned (Eiriolaeth) a’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol. Mae’r Uned (Eiriolaeth) yn darparu cymorth ariannol a gweinyddol i gefnogi’r Bwrdd. Mae’n bwysig eu bod nhw (y Bwrdd) yn annibynnol. Dylai’r Bwrdd ddal yr Uned yn atebol. Gall y Bwrdd ddylanwadu ar gynllun gwaith yr Uned drwy gyd-drafod ac nid yw’r Uned yn cyfarwyddo gwaith y Bwrdd. Mae’r cyfan yn cael ei wneud drwy gyd-drafod.”

Efallai mai’r sylw mwyaf trawiadol a glywyd ynglŷn â’r Uned Eiriolaeth oedd y sylw hwn gan aelod o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol:

“Does yna ddim Uned Eiriolaeth ddim mwy ... mae’n rhan o israddio eiriolaeth.”

Er mwyn gweithredu ein hargymhelliaid i gyhoeddi’r canllawiau statudol mae ar Lywodraeth Cymru angen ffordd o hybu a datblygu newid cadarnhaol. Mae hyn yn sail i argymhelliaid yr adolygiad y dylid ailsefydlu Uned Eiriolaeth benodol a fyddai’n canolbwyntio ar eiriolaeth, â chylch gorchwyl cryfach i hybu’r arferion gorau a sicrhau gwasanaeth cyson drwy ymgysylltu â darparwyr lleol a rhoi cefnogaeth iddynt ar sail safonau cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan.

Dylai’r rhaglen waith ar gyfer yr Uned Eiriolaeth gael ei datblygu a’i rhannu’n flynyddol gyda chomisiynwyr lleol, darparwyr, arolygiaethau a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Dylai’r Uned Eiriolaeth sy’n cael ei hail-lansio gael swyddogaethau penodol, gan gynnwys dod â chomisiynwyr, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyfarfod blynyddol i edrych ar y cynnydd sydd wedi’i wneud ar sail y safonau cenedlaethol, i rannu’r arferion gorau ac i nodi amcanion datblygiadol a allai ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwella gwasanaethau a chynyddu’r nifer sy’n manteisio arnynt. Dylai’r camau gweithredu y cytunir arnynt ar gyfer blwyddyn benodol gael eu rheoli gan yr Uned Eiriolaeth o’r dechrau i’r diwedd a dylid cyflwyno adroddiad arnynt yn ystod y flwyddyn ddilynol.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

26. Dylai Llywodraeth Cymru ailsefydlu Uned Eiriolaeth benodol sy’n canolbwyntio ar eiriolaeth, â chylch gorchwyl cryfach i hybu’r arferion gorau a sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu drwy ymgysylltu â darparwyr lleol a rhoi cefnogaeth iddynt ar sail safonau cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan. Dylai’r rhaglen waith ar gyfer yr Uned gael ei datblygu a’i rhannu’n flynyddol â chomisiynwyr, darparwyr, arolygiaethau a Chomisiynydd Plant Cymru.

27. Dylai’r Uned Eiriolaeth a fydd yn cael ei hail-lansio ddod â chomisiynwyr, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyfarfod blynyddol i edrych ar y cynnydd sydd wedi’i wneud ar sail y safonau cenedlaethol, i rannu’r arferion gorau ac i nodi amcanion datblygiadol a allai ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwella gwasanaethau a chynyddu’r nifer sy’n manteisio arnynt.

Rheoleiddio, Arolygu a Monitro

Yn dilyn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn 2008 a 2009 disgwyliid y byddai'r Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad a'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o sefydlu system reoleiddio ac atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru.³⁶

Mae Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cynghorau yn darparu ar gyfer system hunanasesu mewn awdurdodau lleol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi barn y Cyngor ynglŷn â'i effeithiolrwydd presennol a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella. Un o swyddogaethau'r Fframwaith yw cynhyrchu gwybodaeth greiddiol y mae ar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei hangen. Mae'r Arolygiaeth yn adolygu ac yn dadansoddi'r dystiolaeth y seiliwyd y Fframwaith cyhoeddedig arni fel sail i'w chynllun arolygu ac adolygu ar gyfer y Cyngor.

³⁶ Mawrth 2008, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Dirprwy Weiniog dros Wasanaethau Cymdeithasol <http://new.wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2008/nsffuture/?skip=1&lang=cy>

8.1 Gweithredu'r trefniadau presennol

Holwyd holl randdeiliaid yr adolygiad hwn ynglŷn ag arolygu a rheoleiddio. Dywedwyd wrth dîm yr adolygiad:

— nad oes trefniadau rheoleiddio ac arolygu ffurfiol i roi ystyriaeth benodol reolaidd i eiriolaeth neu gwynion;

— nad oes dangosyddion perfformiad ar gyfer darpariaeth eiriolaeth na phwerau gorfodaeth yn ymwneud ag eiriolaeth.

Cadarnhaodd uwch aelod o'r arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau mai yn achlysurol yn unig y mae eiriolaeth yn cael ei hystyried yng nghyd-destun arolygiadau o agweddau eraill ar wasanaethau cymdeithasol plant a diogelu plant. Cyfeiriodd darparwyr eiriolaeth at gyfarfod arolygwyr mewn rhai awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dywedasant nad oedd hyn yn digwydd yn gyson ac na ellid ei ystyried fel system glir o reoleiddio neu atebolrwydd cyn belled ag y mae eiriolaeth yn y cwestiwn.

Yn ogystal â dweud bod rhai agweddau ar eiriolaeth yn cael eu hystyried yn achlysurol mewn arolygiadau o wasanaethau awdurdod lleol, dywedodd y rhai a holwyd bod eiriolaeth wedi'i chrybwyll mewn cysylltiad â rhai adolygiadau thematig ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Er enghraifft, byddai arolygiadau cynllunio dyfodol parhaol 2008 a 2011 wedi ystyried eiriolaeth fel mater cysylltiedig, ynghyd â'r adolygiadau o Swyddogion Adolygu Annibynnol yn 2009 a gwaith Byrddau Lleol Diogelu Plant yn 2009. Cynhaliwyd arolygiad o CAF/CASS Cymru yn 2010 hefyd ac fel rhan o'r arolygiad hwn edrychwyd ar eiriolaeth mewn achosion llys.

Daeth yn amlwg yn ystod yr adolygiad hwn nad yw'r gwaith hwn yn caniatáu ar gyfer arolygiad systematig o ansawdd ac argaeledd gwasanaethau eiriolaeth ac nad yw'n ffordd o wirio bod awdurdodau'n cyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Nid oes neb yn craffu ar y broses gomisiynu na'r cytundebau lefel gwasanaeth y tu allan i drefniadau mewnol y cyngor lleol. Dywedodd uwch aelod o'r arolygiaeth wrth yr adolygiad:

“Nid oes gennym drefniant yn ein system i ystyried eiriolaeth neu gwynion yn flynyddol.”

O ran Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cynghorau cadarnhaodd yr un arolygwr:

“Byddem yn nodi unrhyw beth y mae'n ei ddweud am eiriolaeth a byddem yn ceisio cadarnhau beth bynnag y gallwn sy'n ymwneud ag eiriolaeth o'r hyn rydym wedi ei weld. Ond yn gyffredinol rydym yn gorfod chwilio amdano.”

Amlinellodd pob un o'r darparwyr a gymerodd ran yn yr adolygiad eu pryderon. Dywedodd y darparwyr eu bod yn teimlo'n agored ac yn rhwystredig gan nad oedd proses arolygu reolaidd. Aeth rhai cyn belled â mynegi rhywfaint o siom nad oeddent yn cael eu harolygu'n systematig neu eu dal yn atebol:

“Rydym wedi cael ein cyfweld fel rhan o arolygiadau awdurdodau lleol ond nid oes arolwg ohonom ni ein hunain wedi'i wneud gan nad yw'n ofynnol i wasanaethau eiriolaeth gael eu cofrestru.”

“Does neb yn edrych o ddiifri beth rydyn ni'n ei wneud fel darparwr. Does yna ddim arolwg a does neb yn gofyn i ni brofi ein bod ni mewn gwirionedd yn diogelu plant a phobl ifanc.”

“Fe ddylen ni gael ein harolygu. Bydden ni'n croesawu hynny. Byddai'n fuddiol a byddai'n sicrhau bod diogelu'n digwydd.”

Dywedwyd wrth dîm yr adolygiad nad oedd unrhyw drefniadau gorfodi'n gysylltiedig â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003) na chanllawiau cynghori 2009 a dywedodd aelod o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol:

“Mae canllawiau ynglŷn ag eiriolaeth yn wan ac yn niwlog – doedd y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau ddim yn glir.”

Dywedodd rhanddeiliad allweddol arall fod galw'r canllawiau'n ganllawiau cynghori wedi golygu eu bod yn wirfoddol ac yn y wasgfa ariannol sydd ohoni ni fydd

eiriolaeth yn cael blaenoriaeth:

“Mae cynghori’n golygu eich bod yn gwneud hynny pan fydd gennyh chi arian a phan fydd arian yn brin rydych yn gwneud beth bynnag y mae gwirioneddol raid i chi ei wneud.”

Hysbyswyd fîm yr adolygiad na fydd gan y canllawiau statudol disgwylidig unrhyw gysylltiadau penodol â fframweithiau arolygu ac yn yr un modd na ellir eu gorfodi. Dywedodd un swyddog nad oes unrhyw sancsiynau y gall llywodraeth Cymru eu defnyddio ar hyn o bryd er mwyn gorfodi’r canllawiau ac mai’r cyfan y mae’n gallu ei wneud yw cynghori awdurdodau lleol. Dywedodd aelod o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol:

“Roeddwn i’n synnu. Roeddwn i’n meddwl y byddai cyhoeddi canllawiau statudol yn golygu y byddai yna arolwg.”

Er mai rôl y llywodraeth yw edrych a yw dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni, dywedodd aelodau o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a swyddogion o’r Uned nad oes dull o ganfod a yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Nid oes dangosyddion perfformiad yn cael eu pennu ac, o ganlyniad, nid oes asesiad yn cael ei wneud er mwyn mesur perfformiad neu gynydd. Dywedodd darparwr eiriolaeth:

“Nid ydym yn cael ein dal yn atebol gan yr Uned (Eiriolaeth) a’r Bwrdd – mae arnon ni eisiau hyn. Does ganddyn nhw fawr o syniad beth rydyn ni’n ei wneud.”

Dywedodd aelod o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol:

“Pam trafferthu cael canllawiau statudol os nad ydym nhw’n mynd i wneud dim byd mwy nag annog pobl i wneud pethau.”

Gwnaeth aelod arall o’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol sylwadau ar eu rôl yng nghyd-destun ymateb i bryderon ynglŷn ag arferion gwael:

“Gallai’r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ysgrifennu a thynnu sylw at bryderon ond nid yw’r cylch gorchwyl yn rhoi’r swyddogaeth honno i’r Bwrdd. Er enghraifft, wnaethon ni ddim ysgrifennu at awdurdodau

lleol ynglŷn â phrynu ar hap er bod yna bryderon. Efallai mai’r Uned (Eiriolaeth) ddylai fod yn gweithredu ynglŷn â phryderon ar ran y Bwrdd.”

Monitro

Dangosodd tystiolaeth a gasglwyd o holiaduron yr awdurdodau lleol ynglŷn â sut y maent yn monitro’r ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth yn eu hardal fod:

—17 awdurdod lleol yn monitro eiriolaeth bob chwarter,
—1 awdurdod lleol yn monitro eiriolaeth bob mis,
—1 awdurdod lleol yn monitro eiriolaeth unwaith y flwyddyn,
—3 awdurdod lleol yn monitro eiriolaeth ond heb nodi pa mor aml.

Roedd y gwaith monitro fel arfer ar ffurf cyfarfod gyda’r darparwr a swyddogion perthnasol yr awdurdod lleol, ac fel arfer roedd angen i’r darparwr gyflwyno adroddiad ar gyfer y cyfnod dan sylw. Roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o’r awdurdodau lleol yn monitro eiriolaeth bob chwarter a’u bod yn dweud bod barn plant a phobl ifanc yn cael ei hystyried fel rhan o’r broses hon. Cadarnhaodd darparwr a chomisiynwyr fod y trefniadau monitro yn gyffredinol yn edrych ar y graddau y cydymffurfir â’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a bod y gwaith yn cael ei wneud gan amlaf gan yr un bobl ag a oedd wedi drafftio’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Dywedwyd felly, yn gyffredinol, nad oes neb o’r tu allan yn ymwneud â sicrhau ansawdd.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth yr Adolygiad:

“Rwy’n credu bod yn rhaid i ni foderneiddio rheoleiddio ac arolygu. Rydym wedi ymrwymo i wneud hynny yn ‘Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy’. Mae angen iddo ddod yn rhan o’r broses ansawdd a chyflawni. (Does) dim pwynt tynnu sylw ato fel cyfrifoldeb statudol a’i gadael hi ar hynny.”

Mae’n amlwg nad oes trefniadau arolygu a rheoleiddio blynyddol na systematig ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant sy’n derbyn gofal, rhai sy’n gadael gofal a phlant mewn angen. Mae’r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar fynediad at wasanaethau ac nid yw wedi edrych ar ansawdd y gwasanaethau sy’n cael eu darparu. Mae goblygiadau ymarferol ac ariannol ynghlwm wrth reoleiddio ac arolygu gwasanaeth ond mae’r

dystiolaeth sydd yn yr Adolygiad hwn yn nodi bod angen sefydlu trefniadau arolygu a rheoleiddio er mwyn hybu gwelliannau ymarfer a gwella mynediad a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae’r Safonau Cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth plant yng Nghymru wedi gosod canllawiau clir ar gyfer arferion da y gellid eu defnyddio i fesur darpariaeth eiriolaeth yng Nghymru. Croesawyd y safonau hyn a disgwyliad y byddent yn dod yn rhan bwysig o’r broses o ddatblygu a monitro eiriolaeth a sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, nid yw’n ymddangos bod neb wedi’i bennu’n gyfrifol am fesur darpariaeth eiriolaeth ar sail y safonau hyn gan eu bod yn safonau gwirfoddol ac ni ellir gorfodi neb i gydymffurfio â hwy. Dywedodd nifer o randdeiliaid yn ystod yr adolygiad hwn y dylid ailedrych ar y safonau a’u diweddarau ond hyd yn oed yn eu fformat presennol gallent ffurfio sylfaen dda a chilir ar gyfer darpariaeth eiriolaeth ym mhob rhan o Gymru.

Rhaid sefydlu dull o reoleiddio ac arolygu fel mater o frys er mwyn mynd ag eiriolaeth i lefel lle gallwn fod yn hyderus ynglŷn ag ansawdd a chyrrhaeddiad y gwasanaethau. Mae angen i arolygwyr gael cyfle i amlygu arferion da a drwg er mwyn helpu i ddatblygu a gwella ymarfer. O ganlyniad, dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) sicrhau bod arolygu gwasanaethau eiriolaeth yn rhan o’r fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a dylent sefydlu proses i gofrestru darparwyr eiriolaeth.

Mae Comisiynydd Plant Cymru’n ymwybodol iawn bod cyllidebau AGGCC a chyllidebau arolygu eraill dan bwysau ac y bydd angen i unrhyw gyfrifoldebau arolygu newydd fod yn addas i’r diben. Yn ychwanegol at hyn, dylent naill ai fod â chyllid yn gysylltiedig â hwy neu dylent fod wedi eu hintegreiddio’n systematig mewn fframwaith sy’n bodoli’n barod. Gan fod y fframweithiau arolygu presennol yn awyddus i fod yn fwy integredig a chyson, gyda’r bwriad o ddatblygu fframwaith canlyniadau, mae cyfleoedd i ymgorffori eiriolaeth. Gwyddom y gall eiriolaeth gael effaith bendant a chadarnhaol ar ganlyniadau a lles unigolyn. Mae’n elfen bwysig o roi grym i blant a phobl ifanc sy’n canfod eu hunain mewn amgylchiadau anodd ac yn agored i niwed a gwrando ar eu llais.

Mae’r broses arolygu’n ddull sefydledig o gasglu data

ac ymgynghori ag ystod eang o reolwyr, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ac mae’r wybodaeth hon yn bwysig iawn er mwyn mesur pa mor effeithiol yw eiriolaeth yng Nghymru. Yr arolygwyr sy’n casglu’r dystiolaeth ac mae’n amlwg nad yw’r agwedd hon ar ddatblygu eiriolaeth yn bodoli yng Nghymru.

Mae Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cynghorau yn ddull hunanasesu defnyddiol i awdurdodau lleol ac mae cynhyrchu’r adroddiadau hyn yn arwain bob blwyddyn at ymweliad gwaith maes gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae’n amlwg fodd bynnag, o’r dystiolaeth a ddaeth i law, bod y sylw a roddir i eiriolaeth yn yr adroddiadau hyn yn anghyson. Gallai Uned Eiriolaeth benodol, wedi’i datblygu o’r newydd, a fyddai’n cefnogi darpariaeth leol ar sail safonau cenedlaethol, fod yn ddefnyddiol er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu rhestr wirio systematig ar gyfer hunanasesu a fyddai’n eu galluogi i weld sut y mae plant a phobl ifanc yn manteisio ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Byddai hefyd yn sicrhau bod rhieni corfforaethol ym mhob awdurdod yn cymryd diddordeb gweithredol bob blwyddyn yn y modd y mae plant a phobl ifanc sy’n agored i niwed yn sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu, a chytuno, drwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar drefniadau adrodd cadarn o fewn y fframwaith y gall Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phaneli Rhianta Corfforaethol eu defnyddio i hunanasesu darpariaeth eiriolaeth leol.

ARGYMHELLION ALLWEDDOL:

28. Rhaid sefydlu ffordd o reoleiddio ac arolygu fel mater o frys. Dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei chynnwys yn y fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a dylent sefydlu proses i gofrestru darparwyr eiriolaeth.

29. Dylai Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i leoliadau preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sefydlu trefniadau ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Casgliad

Mae plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, a phlant mewn angen yng Nghymru sydd eisiau cymorth a chynghor gan eiriolwr proffesiynol annibynnol i'w helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn cael cam. Er bod llawer yn cael gwasanaeth rhagorol gan eiriolwyr proffesiynol annibynnol mae llawer o rai eraill ar eu colled. Dylai strwythurau cenedlaethol a lleol fod wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc hyn yn gallu cael gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a chael budd ohonynt.

Mae'r adolygiad hwn wedi amlygu diffygion y ddarpariaeth bresennol. Nid yw gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol ar gyfer yr holl rai hynny y dylent fod yn eu cyrraedd. Nid oedd plant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy'n eu deall yn dda iawn. Mae'r trefniadau ar gyfer darparu cyllid ac adnoddau'n anghyson ar hyd a lled Cymru. Nid ydynt yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu'n effeithiol, ac mae ymrwymiad a brwdfrydedd cynnar Llywodraeth Cymru i ddarparu canolfan ragoriaeth ar gyfer y gwasanaeth allweddol hwn wedi pylu a phallu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ni ellir caniatáu i'r sefyllfa hon barhau a rhaid mynd i'r afael â hi fel mater o frys. Mae'r adolygiad hwn yn nodi nifer o argymhellion er mwyn adfywio diddordeb partneriaid cenedlaethol a lleol mewn cael Cymru yn ôl ar y trywydd i gyflawni ei huchelgais ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n amser yn awr i ni gael arweiniad cryf, atebolrwydd a ffordd systematig o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc yn cael ei weithredu.

Mae eiriolaeth yn chwarae rhan hollbwysig yn y broses o alluogi plant a phobl ifanc i ddiogelu eu hunain drwy ymarfer eu hawliau, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn fwyaf penodol i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed pan fo penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud. Mae Cymru wedi bod ar daith eiriolaeth ers dros 10 mlynedd, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Waterhouse, ac eto nid oes ganddi ddulliau cadw cydbwysedd clir i sicrhau bod pob plentyn sydd â hawl i eiriolaeth yn cael cyfle go iawn i gael eiriolaeth.

Mae cyfleoedd deddfwriaethol ar hyn o bryd sy'n cynnig cyfle perffaith i fynd i'r afael â'r pryderon sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn. Mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn wirioneddol benderfynol o greu'r gwasanaethau cymdeithasol a'r systemau diogelu gorau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed. Wrth i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bil Plant a Phobl Ifanc gael eu datblygu ac wrth i Fyrddau Lleol Diogelu Plant gael eu hailffurfio, bydd angen ystyried yn ofalus sut i gynyddu'r cyfleoedd hyn er mwyn creu systemau lle gallwn fod yn ffyddiog bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac yn cael eiriolaeth o'r fath pan fydd arnynt ei hangen. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle deddfwriaethol sy'n bodoli i osod y fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth ar sail statudol.

Mae'r adolygiad hwn yn ein hatgoffa nad yw ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc yn ddigon ynddo'i hun. Mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn profi'r manteision gwirioneddol sy'n dod yn sgil gweithredu'r polisi a chyflawni'r ymrwymadau deddfwriaethol a bod y rhain yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu ac yn gwrandao o ddifrif ar blant a phobl ifanc er mwyn deall a ydym yn cyflawni ein dyheadau uchelgeisiol ar eu cyfer.

Argymhellion

Rwyf wedi defnyddio fy mhwerau a'r swyddogaethau sy'n deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 i gynnal yr adolygiad hwn. Mae'r argymhellion yn gofyn i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol ymateb a chyflwyno adroddiad am gynnydd i'r Comisiynydd Plant cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adolygiad.

Keith Towler,
Comisiynydd Plant Cymru

Materion a godwyd yn yr adroddiad

Argymhellion i Lywodraeth Cymru

Diffyg arweiniad strategol

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol clir i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd yn gymwys yn statudol i gael eiriolaeth broffesiynol annibynnol, lle bynnag y mae'n byw yng Nghymru, yn gallu manteisio ar wasanaeth o'r fath drwy drefniadau ac arferion clir a chyson. (Argymhelliad 15)

Fel mater o frys, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol, safonau a fframwaith canlyniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn ddi-oed. (Argymhelliad 23)

Dylai Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ar unwaith. (Argymhelliad 24)

Dylai Llywodraeth Cymru ailsefydlu Uned Eiriolaeth benodol sy'n canolbwyntio ar eiriolaeth, â chylch gorchwyl cryfach i hybu'r arferion gorau a sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu drwy ymgysylltu â darparwyr lleol a rhoi cefnogaeth iddynt ar sail safonau cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan. Dylai'r rhaglen waith ar gyfer yr Uned gael ei datblygu a'i rhannu'n flynyddol â chomisiynwyr, darparwyr, arolygiaethau a Chomisiynydd Plant Cymru. (Argymhelliad 26)

Dylai'r Uned Eiriolaeth a fydd yn cael ei hail-lansio ddod â chomisiynwyr, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyfarfod blynyddol i edrych ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ar sail y safonau cenedlaethol, i rannu'r arferion gorau ac i nodi amcanion datblygiadol a allai ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwella gwasanaethau a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt. (Argymhelliad 27)

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a phendant ar gomisiynu eiriolaeth annibynnol i awdurdodau lleol. (Argymhelliad 11)

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu fformiwla ariannu genedlaethol fel sail i'r broses o neilltuo cyfran o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn unol ag angen lleol a nodwyd. (Argymhelliad 13)

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am eiriolaeth yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd gyson ym mhob rhan o Gymru. (Argymhelliad 19)

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Argymhellion i Lywodraeth Cymru
Diffyg monitor, arolygu a rheoleiddio	<p>Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefniadau atebolrwydd priodol a chadarn yng nghyd-destun eiriolaeth o fewn y llywodraeth. (Argymhelliad 25)</p> <p>Rhaid sefydlu ffordd o reoleiddio ac arolygu fel mater o frys. Dylid gofyn i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei chynnwys yn y fframwaith rheoleiddio ac arolygu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a dylent sefydlu proses i gofrestru darparwyr eiriolaeth. (Argymhelliad 28)</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol i leoliadau preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sefydlu trefniadau ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol. (Argymhelliad 29)</p>
Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth a diffyg ymdrech i'w hyrwyddo.	<p>Argymhellion i awdurdodau lleol</p> <p>Nid yw'r term 'Eiriolaeth' yn hawdd i blant a phobl ifanc ei ddeall a dylai bob amser gael ei gyflwyno ag eglurhad clir mewn geiriau hawdd i'w deall. (Argymhelliad 1)</p> <p>Dylai pob plentyn a pherson ifanc cymwys gael eiriolwr ar yr adeg y mae'n ymuno â'r system statudol. Byddai'r eiriolwr hwn yn gyfrifol am egluro wrth y plentyn neu'r person ifanc beth yn ei rôl. (Argymhelliad 2)</p> <p>Dylai pob rhaglen gynefino ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a staff y timau troseddau ieuencid sicrhau bod dealltwriaeth glir o fanteision ac arferion eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Dylai hyn gynnwys dealltwriaeth glir o hawl plant a phobl ifanc i ddarpariaeth o'r fath a chyflwyniad i Safonau Eiriolaeth Cenedlaethol Cymru. (Argymhelliad 3)</p> <p>Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth ddarparu cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o bwrpas eiriolaeth ymhlith yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylai hyn gynnwys datblygu dealltwriaeth o sut i fanteisio ar eiriolaeth a pherthynas waith gyda rheolwyr darparwyr eiriolaeth ac eiriolwyr. (Argymhelliad 14)</p> <p>Dylai awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth sefydlu trefniadau gweithredu a phrotocolau priodol fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth er mwyn darparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc. (Argymhelliad 18)</p> <p>Rhaid i aelodau etholedig fod â digon o wybodaeth am eu cyfrifoldeb statudol i ddarparu eiriolaeth. Rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth am eiriolaeth i aelodau etholedig yn rheolaidd. (Argymhelliad 6)</p> <p>Dylai rhieni, gofalwyr maeth a gwarcheidwaid gael gwybodaeth glir a hyfforddiant am eiriolaeth annibynnol broffesiynol fel mater o drefn. (Argymhelliad 8)</p> <p>>>></p>

Materion a godwyd yn yr adroddiad	Argymhellion i awdurdodau lleol
Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth a diffyg ymdrech i'w hyrwyddo	<p>Dylai'r eiriolwr sy'n cael ei neilltuo ar gyfer plentyn neu berson ifanc fod yn gyfrifol am egluro ei rôl wrth riant, rhiant maeth neu warcheidwad y plentyn. (Argymhelliad 9)</p> <p>Dylid anfon copi o adroddiadau chwarterol darparwyr eiriolaeth i awdurdodau lleol at bob ffin gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a hysbysu staff sut y mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu defnyddio. Dylai'r darparwr eiriolaeth ddod i gyfarfodydd ffin yr awdurdod lleol yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r arferion a'r prosesau lleol. (Argymhelliad 4)</p> <p>Dylid anfon copi o adroddiadau chwarterol darparwyr eiriolaeth at bob aelod etholedig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a hysbysu'r aelodau sut y mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu defnyddio. Dylai'r darparwr eiriolaeth ymweld â'r panel rhianta corfforaethol yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r arferion a'r prosesau lleol. (Argymhelliad 5)</p> <p>Rhaid i Swyddogion Cwynion ddal i hysbysu plant a phobl ifanc ynglŷn â sut i wneud cwynion ac i gynnig cefnogaeth eiriolwr annibynnol wrth wneud cwyn. (Argymhelliad 21)</p> <p>Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys ym mhob agwedd ar ddatblygu ac adolygu gwasanaethau eiriolaeth. (Argymhelliad 17)</p> <p>Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr aelod etholedig, sydd â chyfrifoldeb statudol am y gwasanaethau plant, yn gweithredu fel hyrwyddwr eiriolaeth yn lleol ac yn rhoi arweiniad cryf yn y maes hwn (Argymhelliad 16)</p>
Mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol	<p>Dylai awdurdodau lleol adolygu nifer y plant a'r bobl ifanc gymwys yn eu hardal sy'n manteisio ar wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn lleol ac ymchwilio i unrhyw batrymau defnydd isel. Dylai hyn gynnwys adolygiad tebyg o drefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. (Argymhelliad 10)</p> <p>Rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth hybu'r berthynas annibynnol rhwng y broses gomisiynu a darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc unigol. (Argymhelliad 20)</p> <p>Dylid cael un pwynt cyswllt cyson ym mhob awdurdod lleol ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth. (Argymhelliad 12)</p>
Diffyg monitro, arolygn a rheoleiddio	<p>Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eiriolaeth yn eitem sefydlog ar agenda'r holl bwyllgorau craffu perthnasol, er mwyn sicrhau bod system gadarn ar gyfer adrodd am eiriolaeth i gynorthwyo gyda rhianta corfforaethol. (Argymhelliad 7)</p>
Diffyg cysondeb wrth weithredu darpariaeth eiriolaeth a diffyg craffu ar gynnydd	<p>Argymhelliad i Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru</p> <p>Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n ymrwmo i graffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun darparu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen mewn adran benodol o'i Adroddiad Blynnyddol. Dylai'r gwaith hwn fod wedi'i seilio'n uniongyrchol ar farn a phrofiadau plant a phobl ifanc. (Argymhelliad 22)</p>

Atodiad CYLCH GORCHWYL

Adolygiad o'r eiriolaeth annibynnol / proffesiynol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen (yn ôl y diffiniad yn Adran 17 o Ddeddf Plant 1989)

Diffiniadau

Eiriolaeth annibynnol / proffesiynol: gweler jig-so Eiriolaeth (Llywodraeth Cymru)
<http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/090803guide/deliveringadvocacyservicesmodelen.doc>
 Plant sy'n Derbyn Gofal: gweler Children Act 1989
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>
 Rhai sy'n gadael Gofal: gweler Children (Leaving Care) Act 2000
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/35/contents>
 Plant Mewn Angen 1989: gweler Children Act 1989
<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>

Y Rhesymeg dros gynnal Adolygiad

Mae'r Comisiynydd a'i staff wedi cael ar ddeall nad yw pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal (PDG), pawb sy'n Gadael Gofal, na phob Plentyn mewn Angen yn medru ymarfer eu hawl statudol i wasanaeth eiriolaeth annibynnol.

Wrth gyfwrdd plant ar gyfer ein hadroddiad ar y symud o ofal i annibyniaeth (a ddisgwyllir ei gyhoeddi yn yr haf, 2011), yn sgîl gwaith achosion y bu ein gwasanaeth ymchwilio a chyngor yn ymwneud ag ef, ac yn sgîl trafodaethau a sgysiau a gawsom gyda darparwyr eiriolaeth, rydym yn gwybod bod yr eiriolaeth sydd ar gael ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yn anghyson ar draws Cymru.

Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ddarparu eiriolaeth annibynnol / proffesiynol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen, er ei fod yn debygol y bydd i'r gwersi a ddysgir o'r adolygiad hwn arwyddocâd ehangach i blant mewn lleoliadau eraill.

Pwerau Comisiynydd Plant Cymru

Mae gan y Comisiynydd bŵer i adolygu a monitro trefniadau ar gyfer darparu eiriolaeth trwy bwerau a swyddogaethau sy'n deillio o Adran 73 Deddf Safonau Gofal 2000 (gweler atodiad 1).

Rhaid i'r adolygiad fod ar gyfer y pwrpas o ganfod ac ydyw, ac i ba raddau, mae'r trefniadau yn effeithiol wrth ddiogelu plant a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc.

Casglu Gwybodaeth

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 (gweler atodiad 2), mi all y Comisiynydd wneud cais gan y cyrff hynny sydd dan adolygiad am unrhyw wybodaeth mae e'n ystyried yn bwrsasol ar gyfer:

- adolygu a monitro trefniadau mewn perthynas ag eiriolaeth, a
- asesu effaith ar fethiant unrhyw berson/au i wneud trefniadau felly (gweler atodiad 2).

Gall y Comisiynydd wneud cais am wybodaeth oddi wrth nifer o bersonau (gweler atodiad 2).

Amcanion Craidd

Bydd yr adolygiad yn ymdrin â threfniadau eiriolaeth ar gyfer y canlynol:

- Gweinidogion Cymreig
- awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cylch Gorchwyl

1) Casglu a chyflwyno barn a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd â hawl i dderbyn cymorth eiriolaeth annibynnol / proffesiynol, gan eu galluogi i gyfrannu at argymhellion adroddiad ffurfiol.

2) Dadansoddi cyd-destun deddfwriaeth a pholisi eiriolaeth ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yng Nghymru.

3) Adolygu'r trefniadau comisiynu ac ariannu cenedlaethol a lleol ar gyfer darpariaeth eiriolaeth annibynnol / proffesiynol i blant ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

4) Canfod cryfderau a gwendidau yng nghyswllt y ddarpariaeth gyfredol o gymorth eiriolaeth annibynnol / proffesiynol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen.

5) Darparu adolygiad annibynnol o'r strwythurau cenedlaethol a sefydlwyd i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth annibynnol / proffesiynol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen.

6) Cynhyrchu adroddiad ffurfiol yn adlewyrchu barn a phrofiadau PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yng nghyswllt mynediad i eiriolaeth annibynnol / proffesiynol a'r ddarpariaeth honno, gan gyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiynydd ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r adolygiad.

7) Monitro'r argymhellion a geir yn yr adroddiad.

Methodoleg

Bydd fîm prosiect sy'n cynnwys y Comisiynydd a staff sy'n rhan o'i dîm yn cynnal yr adolygiad, a byddant yn gwneud y canlynol:

1) Cwrdd â PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen sydd â hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol / proffesiynol.

2) Sefydlu grŵp cyfeiriadol o bobl ifanc i roi cyngor a mewnbwn i'r adolygiad, gan gynnwys yr argymhellion ar gyfer yr adroddiad ffurfiol.

3) Mapio'r holl ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau ynghylch darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol / proffesiynol i PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddiad cymharol â gwledydd eraill y DU.

4) Mapio'r ddarpariaeth bresennol o ran eiriolaeth annibynnol / proffesiynol i blant a phobl ifanc yn y systemau derbyn gofal ar draws 22 awdurdod lleol Cymru, gan gynnwys adolygiad hanesyddol o'r gwariant ar y ddarpariaeth.

5) Bydd y Comisiynydd yn casglu tystiolaeth gan ddefnyddio fformat strwythuredig gyda staff allweddol o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, gan ganolbwyntio ar elfennau allweddol Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Eiriolaeth i Blant:

- i. Uwch Reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- ii. Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen
- iii. Eiriolwyr a Rheolwyr darparwyr eiriolaeth annibynnol
- iv. Swyddogion Adolygu Annibynnol
- v. Aelodau etholedig gyda chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc

6) Casglu tystiolaeth o Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol trwy ddsbarthu holiadur strwythuredig.

7) Adolygu rôl, swyddogaeth a pherfformiad Uned Eiriolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy ddadansoddi cynlluniau gwaith cyfredol a blaenorol, cyfweiliadau gyda staff yr Uned Eiriolaeth ac uwch weision sifil sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon, ac adborth gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.

8) Adolygu rôl, swyddogaeth a pherfformiad y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol trwy ddadansoddi ei gylch gorchwyl, ei gynllun gwaith blynyddol, cofnodion ei gyfarfodydd a chyfweiliadau strwythuredig gydag aelodau'r bwrdd.

9) Cynnal sampl o gyfweiliadau mewn fformat strwythuredig gyda darparwyr eiriolaeth annibynnol / proffesiynol.

10) Cynnal cyfres o gyfweiliadau strwythuredig gydag aelodau etholedig a gwleidyddion cenedlaethol sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol / proffesiynol neu â diddordeb yn hynny.

11) Cynnal cyfres o gyfweiliadau strwythuredig ynghylch eiriolaeth annibynnol / proffesiynol gydag ADSS, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyrrff anllywodraethol perthnasol.

12) Paratoi adroddiad ffurfiol yn cyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiynydd a'i ddanfôn at Brif Weinidog Cymru, llyfrgelloedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Dau Dŵ'r Senedd, a hefyd at y sefydliadau y mae eu trefniadau neu eu methiant i wneud trefniadau wedi cael eu hadolygu.

13) Paratoi drafft a'i rannu gyda'r cyrff sydd yn gynwysedig yn yr adolygiad. Byddant yn cael cyfle i ymateb iddo drwy gywiro unrhyw gamsyniadau ffeithiol ac i ymateb i'r argymhellion. Mae'n bosibl gallasai'r ymatebion gael eu hystyried wrth baratoi'r adroddiad terfynol.

Amserlen

Ebrill – Hydref 2011: Casglu tystiolaeth
 Tachwedd – Rhagfyr 2011: Dadansoddi'r wybodaeth
 Ionawr 2012: Adolygiad gan gymheiriaid
 Chwefror 2012: Cyhoeddi'r casgliadau ac argymhellion



0808 801 1000 / 80800*
post@complantcymru.org.uk



@complantcymru
www.complantcymru.org.uk

Ysgrifennwch:
Comisiynydd Plant Cymru
Rhadbost RRGL XLYC BHGC
Abertawe SA7 9FS

*Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)
our message with COM)